

Adolygiad o Effaith Grant Cymorth y Strategaeth Gwaith Ieuenctid

Gorffennaf 2017

Mark Brierley

Consulting

20 Boundary Lane

Saltney

Sir y Fflint

CH4 8LN

01244-671218

Mbrierley1@sky.com

www.markbrierleyconsulting.co.uk

Tabl Cynnwys

CRYNODEB GWEITHREDOL	i
1 CYFLWYNIAD	1
2 METHODOLEG	2
3 DOSRANNU INCWM TRWY GYFRWNG GRANT	3
3.1 Grant o'i gymharu â Chyllid Craidd y GCR.....	3
3.2 Effaith ar Reoli Newid a Moderneiddio Gwasanaethau.....	4
3.3 Cydweithio.....	8
3.4 Arian Cyfatebol, Arian wedi'i Gyfuno, a Dulliau Cydweithredol o Ddefnyddio Cyllid.....	8
3.5 Llenwi Bylchau yn Deillio o Doriadau.....	9
3.6 Crynodeb.....	9
4 MEINI PRAWF Y GRANT	10
4.1 Adborth ynghylch y Meini Prawf.....	10
4.2 Sut Cafodd yr Arian ei Gyllidebu Ar Draws y Tair Maen Prawf (Y Tair Blynedd).....	10
4.3 Cyllideb yn ôl y Tair Maen Prawf yn 2016-17 (Blwyddyn 3) ym mhob Awdurdod Lleol.....	12
4.3.1 Cyllideb y Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid 2016-17.....	12
4.3.2 Cyllideb Mynediad Agored/Cynllun Integredig Sengl 2016-17.....	13
4.3.3 Cyllideb Hyfforddiant 2016-17.....	14
5 ELFENNAU ERAILL O'R STRATEGAETH GWAITH IEUENCTID	16
5.1 Cynorthwyo Pobl Ifanc i Ddatblygu Sgiliau Bywyd a Gwydnwch.....	16
5.2 Yr Iaith Gymraeg.....	16
5.3 Y Sector Gwaith Ieuenctid Gwirfoddol.....	17
5.4 Dangosyddion Llesiant Cenedlaethol.....	18
5.4.1 Dangosyddion Llesiant Cenedlaethol o fewn y Ddogfen Ymgynghori <i>Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol ar gyfer Gwaith Ieuenctid</i> (Mawrth 2016).....	18
5.4.2 Dangosydd 17: Mae pobl yn teimlo y gallant gyfrannu at benderfyniadau lleol.....	18
5.4.3 Dangosydd 18: Pobl sy'n Gwirfoddoli.....	18
5.4.4 Crynodeb.....	18
6 PENDERFYNIADAU YNGHYLCH GWARIANT	19
6.1 Pwy Gyfrannodd at Benderfyniadau ynghylch sut i Wario'r Grant?.....	19
6.2 Gosod Prosesau Gwneud Penderfyniadau mewn Cyd-destun Ehangach.....	20
7 ALLBYNNAU A CHANLYNIADAU	22
7.1 Diffiniadau.....	22
7.2 Anawsterau Methodolegol â'r Data.....	24
7.3 Data.....	25
7.3.1 A Gyflawnwyd Targedau ynghylch Allbynnau a Chanlyniadau?.....	25
7.3.2 C1 Faint o bobl ifanc wnaethom ni ymgysylltu â hwy?.....	25
7.3.3 A2 Faint o bobl ifanc wnaethom ni weithio yn uniongyrchol â hwy?.....	26
7.3.4 A3 Faint Wnaethom Ni Gyflawni?.....	27
7.3.5 A4 Faint o Gymwysterau Gwaith Ieuenctid Proffesiynol a Ariannwyd?.....	27
7.3.6 A5 Cyfranogwyr Hyfforddiant.....	27
7.3.7 A6 Pa Mor Dda Wnaethom Ni Gyflawni?.....	28
7.3.8 C1 Achrediadau.....	28
7.3.9 C2 Cynnydd o ran Addysg Hyfforddiant a Chyflogaeth.....	28

7.3.10	C3 Dangosyddion Meddal Cyffredinol	29
7.3.11	Crynodeb o'r Data	29
8	MONITRO A GWERTHUSO'R GRANT	30
8.1	Safbwyntiau'r PSI ynghylch Gofynion Monitro.....	30
8.2	Adroddiad Cynnydd Chwe Mis	30
8.3	Adroddiadau Gwerthuso Blynyddol.....	31
8.4	Anawsterau a Gwelliannau Posibl.....	31
9	DYFODOL Y GRANT	32
10	CANFYDDIADAU AC ARGYMHELLION	33
10.1	Effaith.....	33
10.2	Monitro a Gwerthuso.....	34
10.3	Argymhellion.....	34
	Atodiad 1: RHESTR O GYFWELEION.....	36

CRYNODEB GWEITHREDOL

Mae'r adroddiad hwn yn darparu crynodeb gweithredol o Grant Cymorth Strategaeth Gwaith Ieuenctid Llywodraeth Cymru. Gwnaed yr arolwg gan yr ymchwilydd a'r ymgynghorydd annibynnol Mark Brierley o *Mark Brierley Consulting* rhwng diwedd Ebrill a dechrau Mehefin 2017.

Mae **Grant Cymorth y Strategaeth Gwaith Ieuenctid (GCSGI)** yn grant pedair blynedd o fis Ebrill 2014 sy'n werth £2.756m y flwyddyn.

Mae gan GCSGI dair maen prawf (mae'r adolygydd wedi tywyllu'r testun i'w hamlygu):

- Cynorthwyo i weithredu cynllun y **Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid (FfYDI)**, yn cynnwys cynorthwyo a hwyluso cyfraniad y sector gwirfoddol.
- Cynorthwyo **darpariaeth mynediad agored** i ddiwallu **anghenion lleol a llenwi bylchau** a nodwyd yng **Nghynlluniau Integredig Sengl** Awdurdodau Lleol.
- Gellir gwario **hyd at 25%** i gynorthwyo i ddiwallu **anghenion hyfforddiant staff (yn cynnwys y sector gwirfoddol)**, ond ni ellir defnyddio'r grant hwn i ariannu hyfforddiant generig a ddylai gael ei ddarparu trwy law Awdurdodau Lleol, megis diogelu, iechyd a diogelwch a hylendid bwyd.

Dosbarthu Cyllid y Grant a'i Effaith Strategol

Roedd bron iawn pob Prif Swyddog Ieuenctid (PSI) a gyfwelwyd yn credu y dylai GCSGI **barhau fel grant sydd ar wahân i'r Grant Cynnal Refeniw (GCR)**. Ym marn **CLILC**, er byddai perygl o ragor o grebachu mewn darpariaeth Gwasanaethau Ieuenctid pe cai GCSGI ei dynnu'n ôl neu ei gyfuno â'r GCR, dylai pob grant gael eu cyfuno â'r GCR i'w pennu yn lleol, ar sail anghenion lleol.

Dywedodd oddeutu 75% (n=15/20) o'r PSI a gyfwelwyd mai un o gryfderau'r grant yw'r ffaith fod y defnydd ohono yn **hyblyg**. Nid yw gwaith papur GCSGI yn cynorthwyo PSI i ddangos sut maent wedi defnyddio'r Grant i fynd i'r afael â **phrosesau rheoli newid a moderneiddio yn strategol**.

Roedd PSI yn aml yn awyddus i bwysleisio fod y Grant wedi caniatáu iddynt **ddatblygu, profi ac addasu prosiectau arloesol**, mewn ymateb i anghenion a nodir yn lleol, a darparu gwasanaethau trwy ddulliau gwahanol ar adegau gwahanol ac mewn lleoliadau gwahanol. Ystyrid y rhain fel rhai oedd yn wahanol i wasanaethau a ddarperir trwy gyllid craidd, ac yn ychwanegu gwerth atynt, ac felly'n ategu creadigrwydd ac yn moderneiddio.

Roedd y PSI hefyd yn gallu cynnig enghreifftiau o sut mae'r grant wedi **gwella cydweithio**. Yn benodol, roedd wedi cynorthwyo i ddatblygu **arian cyfatebol, arian wedi'i gronni, neu gynorthwyo i gysoni ffrydiau cyllido niferus i weithio mewn modd cydweithredol**.

Meini Prawf y Grant

Dros dair blynedd y Grant, gwariwyd oddeutu **56% (£4.6m)** ar weithgareddau'r **Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid (FfYDI)**, defnyddiwyd **33% (£2.7m)** i gynorthwyo prosiectau **darpariaeth Mynediad Agored a Chynlluniau Integredig Sengl**, a gwariwyd **11% (£0.94m)** ar **Hyfforddiant**. Mae'r cyfartaledd o 11% ar hyfforddiant gryn dipyn yn is na'r uchafswm o 25% a ganiatawyd o dan y Grant. Cynyddodd y gyllideb ar gyfer y FfYDI rhwng 2014-15 a 2017-17 mewn 11 Awdurdod Lleol, a gostyngodd Hyfforddiant mewn 15 Awdurdod Lleol. Roedd amrywiaeth sylweddol rhwng Awdurdodau Lleol o ran dosbarthiad y cyllidebau ar draws y tair maen prawf. Nid oedd modd nodi faint o'r gyllideb hyfforddiant a ddefnyddiwyd i ariannu **hyfforddiant gwaith ieuenctid proffesiynol** (cymwysterau

Gweithiwr Cymorth leuenctid L2/L3 neu gymwysterau Gradd L4-L7) yn hytrach na hyfforddiant mwy cyffredinol.

Fe wnaeth un ar ddeg Awdurdod Lleol ariannu prosiectau oedd yn cynnwys hyrwyddo **laith a/neu Ddiwylliant Cymru** fel elfennau allweddol, ac roedd nifer o'r rhain yn Awdurdodau Lleol ble'r oedd y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn wan cyn hynny. Dros dair blynedd, roedd y gwariant hwn yn **£633k (7.7%)** o gyfanswm y Grant. Fodd bynnag, nid yw hyn yn cynnwys prosiectau ble byddai'r Gymraeg yn cael ei defnyddio fel rhan o ddarpariaeth ddwyieithog, felly nid yw'r ffigur hwn yn dweud digon am y sefyllfa.

Fe wnaeth pedwar ar ddeg o Awdurdodau lleol gomisiynu prosiectau gan y **sector gwirfoddol**. Roedd y gwariant hwn yn **£1.422m** o'r cyllid dros dair blynedd, neu oddeutu **17%** o'r Grant (o'i gymharu, fe wnaeth y Cynllun Grantiau Cyrff leuenctid Gwirfoddol Cenedlaethol [CIGC] ddsbarthu cyllid gwerth oddeutu £655 mil y flwyddyn o 2015 ymlaen). Ni chafodd yr arian hwn ei ddsbarthu'n gyfartal (ond ni chaiff yr arian y bydd Awdurdodau Lleol yn ei wario ar y sector gwirfoddol o'u cyllideb graidd ei ddsbarthu'n gyfartal chwaith, felly mae'n un rhan yn unig o'r darlun hwnnw).

Ni ofynnwyd i Awdurdodau Lleol nodi a oedd disgwyl i'w prosiectau effeithio ar unrhyw un o'r **Dangosyddion Llesiant Cenedlaethol**. Efallai byddai rhywfaint o fudd, pe bai GCSGI yn parhau, gofyn i Awdurdodau Lleol wneud cysylltiadau penodol rhwng prosiectau a'r Dangosyddion Cenedlaethol, ble bo hynny'n berthnasol. Byddai angen gwahaniaethu rhwng prosiectau y byddai'r Dangosyddion yn ffocws pennaf iddynt (a dylai'r prosiectau hynny fod â thargedau canlyniadau/allbynnau cysylltiedig) a phrosiectau ble byddai'r Dangosydd yn fudd eilaidd (dim gofyniad o ran targedau).

Gosod Prosesau Gwneud Penderfyniadau mewn Cyd-destun Ehangach

Mae'r prosesau monitro a gwerthuso yn canolbwyntio ar y darlun bychan, sef effaith prosiectau, yn hytrach na'r darlun mwy ynghylch dewisiadau strategol, newid a'r effaith ar y boblogaeth gyfan. Mae'r gwahaniaethau yn nulliau Awdurdodau Lleol o ddefnyddio CGSGI yn adlewyrchu anghenion lleol, cyd-destunau lleol a blaenoriaethau strategol.

Mae GCSGI yn cael ei adolygu ar wahân i'r darlun lleol ehangach, ond mewn gwirionedd, mae'n rhan o'r jig-so hwnnw. Felly, os bwriedir i'r CGSGI barhau, a gan gymryd yn ganiataol y caiff rhyw fath o Aseidiadau o Ddigonolrwydd eu datblygu, sut ddylai'r ddau gyd-fynd â'i gilydd?

Canlyniadau ac Allbynnau

Er y gofynnwyd i Awdurdodau Lleol ddarparu gwybodaeth ynghylch canlyniadau ac allbynnau yn eu Cynlluniau Gwaith, **ni wnaeth proses CGSGI gynnig diffiniadau o ystyr canlyniad neu allbwn**. Ni ddifinnir y termau hyn yn nogfen ymgynghori Llywodraeth Cymru, *Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol ar gyfer Gwaith leuenctid* (Mawrth 2016). Wrth ddadansoddi effaith CGSGI, bu'n rhaid i'r adolygydd lunio diffiniadau ymarferol i gynorthwyo â hyn (trowch at adran 7.1).

Roedd nifer o **broblemau methodolegol cyffredin** oedd yn cyfyngu ar y defnydd o'r data i adolygu effaith CGSGI:

- yn aml iawn, nid oedd gwaelodlinau na thargedau;
- roedd yr eitemau data yr adroddid yn eu cylch yn wahanol i'r dangosyddion a bennwyd i'r prosiect;
- gormod o ddata a dim digon o ddata wedi'u cydgrynhoi;
- adroddiadau chwarterol yn hytrach na chyfansymiau blynyddol;

- cymysgedd wael o niferoedd a chanrannau.

Cafodd anawsterau methodolegol tracio cyflawni canlyniadau ac allbynnau eu hadlewyrchu yn y cwestiwn sy'n holi a gafodd targedau canlyniadau ac allbynnau eu cyflawni neu beidio. Roedd diffyg data cadarn yn ei gwneud yn anos dangos tystiolaeth o gyflawni mewn cymhariaeth â thargedau. Nid yw hyn yn golygu fod diffyg effaith, ond roedd yn rhaid dibynnu mwy ar y testun ansoddol mewn dogfennau ac mewn cyfweiliadau â'r PSI. Nid yw'r diffyg gwybodaeth gadarn yn y dogfennau monitro a gwerthuso yn golygu nad yw Awdurdodau Lleol yn eu casglu. Mae'n golygu nad yw'r adroddiadau am y data hyn yn gyson fel y gellir eu defnyddio yn ystyrion ar y lefel genedlaethol, felly mae hyn yn broblem y gellir ei datrys.

Fodd bynnag, ar waethaf y ffaith nad oedd adroddiadau llawn am ddata mae'n debyg, llwyddwyd i gydgrynhoi rhywfaint o ddata ynghylch:

- Faint o bobl ifanc yr ymgysylltwyd â hwy (adran 7.3.2);
- Faint o bobl ifanc y gweithiwyd yn uniongyrchol â hwy (7.3.3);
- Nifer y cymwysterau proffesiynol mewn gwaith ieuencid a gefnogwyd (7.3.5);
- Achrediadau (7.3.8);
- Cynnydd o ran y nifer sydd mewn Addysg, Hyfforddiant neu Gyflogaeth (7.3.9)

Mae rhywfaint o'r data nodedig yn cynnwys:

- Gostyngiad o 33% rhwng 2014-15 a 2016-16 yn nifer y staff a gynorthwyir i ennill cymwysterau gwaith ieuencid proffesiynol;
- Roedd oddeutu 23% o'r holl achrediadau gwaith ieuencid yn 2015-16 yn gysylltiedig â'r Grant (n=5277/22719);

Mae'n amlwg o'r adborth gan y PSI eu bod yn credu fod GCSGI wedi effeithio'n sylweddol ar agenda'r FfYDI. Mae'n debyg y bydd hi'n anodd ymgysylltu â phobl ifanc sydd mewn perygl o ddod yn NEET neu sydd yn NEET trwy leoliadau ffurfiol mewn ysgolion, ac mae'n debyg fod y defnydd o ddulliau gwaith ieuencid wedi cyfrannu at y lleihad cyson yn genedlaethol yn nifer y bobl ifanc sy'n NEET. Yn ychwanegol, mae GCSGI wedi cynorthwyo i ddatblygu partneriaeth a llwybrau ar y cyd ag ysgolion yn benodol, a chred y PSI ei fod wedi cynorthwyo i leihau'r ganran o bobl ifanc sy'n NEET. Ni ategir hyn yn gryf gan y data oherwydd diffygion yn y data.

Crynodeb o'r Canfyddiadau

Roedd y PSI a gyfwelwyd yn unfrydol yn eu dymuniad i **GCSGI barhau fel y mae, â'r un lefel o gyllid neu ragor**. Ym marn **CLILC**, dylid cyfuno'r holl grantiau â'r GCR i'w pennu yn lleol, ar sail anghenion lleol. Credai PSI fod y tair maen prawf yn ddefnyddiol. Pe bai GCSGI yn parhau, byddai angen ei gysoni ag unrhyw Strategaeth Gwaith Ieuencid newydd a'r adolygiad o Ymestyn Hawliau, ond ar y cyfan, nid oeddent yn chwennych llawer o newid.

O ran effaith cyffredinol:

A: Y Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuencid	Mae wedi cynorthwyo â'r gwaith o gyflwyno'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuencid. Mae agenda'r FfYDI hefyd yn nodwedd gref o'r adborth gan y PSI ynghylch y meysydd ble mae'r Grant wedi sicrhau'r effaith fwyaf.
B: Mynediad Agored a Chynlluniau Integredig Sengl	Mae wedi cynorthwyo â darpariaeth Mynediad Agored, ond yn aml trwy gyfrwng model sy'n wahanol i'r gorffennol (mwy o waith allgymorth na darpariaeth mewn adeiladau, mwy o waith ar gontract allanol i'r sector gwirfoddol, neu brosiectau arloesol sy'n ymateb i anghenion sy'n dod i'r

	amllwg).
C: Hyfforddiant	Mae hyfforddiant wedi gostwng yn ystod pob un o flynyddoedd y Grant a bellach, mae'n denu cryn dipyn yn llai o gyllid na'r hyn a ddarparwyd yn flaenorol gan Lywodraeth Cymru trwy'r Grant Hyfforddiant a Datblygu Gwaith Ieuencid.

Nid yw'r ddogfennaeth i fonitro a gwerthuso GCSGI y mae'n ofynnol i awdurdodau lleol eu llenwi yn gofyn i Awdurdodau Lleol ddangos y **dadansoddiad o anghenion sy'n sail i'w dewis** o brosiectau nac **effaith strategol y Grant**. Cafwyd gwell cipolwg yn sgil y cyfweiliadau â'r PSI na dogfennaeth GCSGI wrth geisio canfod negeseuon ynghylch effaith y Grant o ran ategu newid/moderneiddio, ailffocysu, ymateb i anghenion sy'n dod i'r amlwg, arloesedd/creadigrwydd, gwella cydweithio, a chysoni ffrydiau cyllido niferus.

Ar y cyfan, mae PSI yn credu fod y Grant yn **hynod o werthfawr o ran eu gallu i ddarparu gwasanaethau ieuencid effeithiol yn unol â'r Strategaeth Gwaith Ieuencid a thu hwnt i hynny**.

Pe bai GCSGI yn parhau, byddai angen **addasu'r trefniadau monitro a gwerthuso** (gweler adran 8.4) er mwy ceisio gwella craffu, atebolrwydd a dealltwriaeth o effaith y Grant (datrys diffygion y data a gwella monitro; ymgorffori rhagor o gyd-destun strategol; rhagor o adroddiadau ynghylch gwariant lleol; symleiddio'r Adroddiad Cynnydd Chwe Mis).

Argymhellion

Ar waethaf rhywfaint o ddiffygion yn y data, gellir dweud pe bai'r Grant yn dod i ben, a hyd yn oed pe cai ei gyfuno â'r GCR, byddai'n effeithio'n sylweddol ar gyfanswm ac amrywiaeth darpariaeth gwaith ieuencid; ar allu gwasanaethau ieuencid awdurdodau lleol i addasu, newid a moderneiddio; ac ar y gwaith o symud ymlaen ag agenda'r FfYDI. Dyma fy argymhellion:

ARG1:	Pe bai GCSGI yn parhau, byddai angen ei addasu i gyd-fynd â blaenoriaethau strategol sy'n deillio o Strategaeth Gwaith Ieuencid ddiwygiedig a/neu adolygiad o Ymestyn Hawliau.
ARG2:	Mae angen i gynlluniau gwaith ar gyfer GCSGI gynnwys sylwebaeth ynghylch dadansoddi anghenion a phwy wnaeth gyfrannu at hynny (e.e. pobl ifanc, staff, asiantaethau sy'n bartneriaid) a'r rhesymau dros wneud penderfyniadau strategol ynghylch sut i wario'r Grant.
ARG3:	Gallai adolygu'r meini prawf neu'r dull o lunio adroddiadau fod yn ddefnyddiol er mwyn gwella atebolrwydd ond cynnal hyblygrwydd trwy adlewyrchu: <ul style="list-style-type: none"> • I ba raddau mae'r Grant wedi arwain at effaith strategol yn lleol (rheoli newid/moderneiddio/ailffocysu; ymateb i anghenion lleol newydd sy'n dod i'r amlwg; gwella cydweithio; cysoni ffrydiau cyllido niferus); ac eglurhad o'r ffactorau sy'n sbarduno'r newidiadau hyn. • Datblygu prosiectau sy'n arloesol/creadigol; • Gwella'r cysylltiad â Dangosyddion Cenedlaethol ar gyfer Llesiant; • Gwahanu hyfforddiant gwaith ieuencid proffesiynol ac elfen hyfforddiant mwy cyffredinol y grant.
ARG4:	Mae angen gosod GCSGI mewn cyd-destun strategol ehangach oherwydd mae'n dangos rhan o'r darlun o ddarpariaeth leol yn unig. Dylid sicrhau adolygiad llawnach o bob gwasanaeth lleol, yn cynnwys rôl GCSGI, trwy gyfrwng yr Aseidiadau o Ddigonolrwydd sydd wedi'u hargymhell mewn adroddiadau ac adolygiadau eraill.

1 CYFLWYNIAD

Mae'r adroddiad hwn yn darparu crynodeb gweithredol o Grant Cymorth Strategaeth Gwaith Ieuentid Llywodraeth Cymru. Gwnaed yr arolwg gan yr ymchwilydd a'r ymgynghorydd annibynnol Mark Brierley o Mark Brierley Consulting rhwng diwedd Ebrill a dechrau Mehefin 2017.

Mae'n ofynnol i Lywodraeth Cymru adolygu rhaglenni cyllid bob 3-5 mlynedd o leiaf. Nod yr adolygiad hwn oedd:

Datblygu dealltwriaeth eglur o werth ac effaith Grant Cymorth y Strategaeth Gwaith Ieuentid ar sicrhau darpariaeth gwaith ieuentid ledled Cymru a gwneud argymhellion ynghylch ariannu posibl yn y dyfodol. Bydd canfyddiadau'r ymchwil hwn a gwerthusiadau o grantiau eraill a'r argymhellion ategol yn rhoi'r dystiolaeth i Lywodraeth Cymru i lywio ei syniadau ynghylch ariannu gwaith ieuentid yn y dyfodol.

Fe wnaeth *Strategaeth Genedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer Gwaith Ieuentid yng Nghymru 2014-2018* ddiffinio pedwar o ganlyniadau allweddol:

1. Sicrhau bod pobl ifanc ledled Cymru yn parhau i allu manteisio ar amrywiaeth o gyfleoedd dysgu anffurfiol a heb fod yn ffurfiol sy'n ehangu gorwelion, yn herio eu ffordd o feddwl ac yn datblygu eu sgiliau.
2. Atgyfnerthu'r gydberthynas strategol rhwng sefydliadau gwaith ieuentid ac addysg ffurfiol yn lleol ac yn genedlaethol. Mae hyn yn cynnwys gweithwyr ieuentid yn gwneud cyfraniad mwy ffurfiol at gynorthwyo pobl ifanc sy'n wynebu'r risg mwyaf o ymddieithrio rhag addysg a hyfforddiant - rhan anhepgor o'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuentid.
3. Sicrhau bod y ddarpariaeth gwaith ieuentid a gynigir i bobl ifanc gan sefydliadau gwaith ieuentid yn y sectorau statudol a gwirfoddol yn fwy cydgysylltiedig a chyson, a bod sefydliadau gwaith ieuentid yn y sectorau statudol a gwirfoddol yn cydweithio'n fwy effeithiol.
4. Y gallu i ddangos canlyniadau ac effaith gwaith ieuentid. Caiff Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol ei ddatblygu'n benodol er mwyn y diben hwn.

Dyfynnir o'r Gwahoddiad i Dendro am yr adolygiad hwn.

Mae **Grant Cymorth y Strategaeth Gwaith Ieuentid (GCSGI)** yn grant pedair blynedd o Ebrill 2014 sy'n werth £2.756m bob blwyddyn. Cafodd pob un o'r 22 Awdurdod Lleol yng Nghymru ddyraniad sylfaenol gwerth £0.025m ar ben cyfran gyfansawdd yn seiliedig ar y fformiwla a ddefnyddir i ategu'r **Grant Cynnal Refeniw (GCR)**.

Cyn GCSGI, bu amrywiaeth o grantiau eraill oedd yn berthnasol i Waith Ieuentid, yn cynnwys **Grant Refeniw Gwaith Ieuentid, Grant Hyfforddiant a Datblygu Gwaith Ieuentid a Grant Cyfalaf Gwaith Ieuentid**. Cafodd y Grant Cyfalaf ei gyfuno â chronfa Ysgolion y 21ain Ganrif (a reolid y tu allan i'r Gangen Gwaith Ieuentid) a chafodd y Grant Refeniw a'r Grant Hyfforddiant eu cyfuno a'u hailenwi yn Grant Cymorth y Strategaeth Gwaith Ieuentid.

Ar yr un pryd â GCSGI, cynigiwyd grant arall i Awdurdodau Lleol i ategu'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuentid, i ddarparu cyllid i ariannu Cydlynwyr Ymgysylltu a Datblygu Lleol. Roedd cyfanswm **Grant y FFYDI** yn 2016-17 yn **£1.1m**. I symleiddio trefniadau gweinyddol o fewn Llywodraeth Cymru, mae hyn wedi'i gyfuno â GCSGI ar gyfer 2017-18.

Mae tair maen prawf ar gyfer GCSGI (mae'r adolygydd wedi tywyllu'r testun i'w hamlygu):

- A: Cynorthwyo i weithredu cynllun y **Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid**, yn cynnwys cynorthwyo a hwyluso cyfraniad y sector gwirfoddol.
- B: Cynorthwyo **darpariaeth mynediad agored** i ddiwallu **anghenion lleol a llenwi bylchau** a nodwyd yng **Nghynlluniau Integredig Sengl** Awdurdodau Lleol.
- C: Gellir gwario **hyd at 25%** i gynorthwyo i ddiwallu **anghenion hyfforddiant staff (yn cynnwys y sector gwirfoddol)**, ond ni ellir defnyddio'r grant hwn i ariannu hyfforddiant generig a ddylai gael ei ddarparu trwy law Awdurdodau Lleol, megis diogelu, iechyd a diogelwch a hylendid bwyd.

2 METHODOLEG

Roedd yn ofynnol i'r adolygiad gael ei gwblhau ar gyfer Llywodraeth Cymru o fewn amserlen fer (dau fis), gan ddefnyddio gwybodaeth oedd eisoes ar gael a chyfweliadau â PSI. Ffocws yr arolwg oedd ystyried effaith y Grant, nid effeithiolrwydd adrannau gwaith ieuenctid Awdurdodau Lleol yn gyffredinol, nac arferion gwaith ieuenctid, a'r bwriad oedd darparu gwybodaeth a fyddai'n cynorthwyo'r Gweinidog i wneud penderfyniadau ynghylch dyfodol y Grant. Fe wnaeth natur ac amserlen yr adolygiad ddylanwadu ar y dewis o ddulliau a ddefnyddiwyd.

O ran gwybodaeth oedd eisoes ar gael, roedd yn ofynnol i bob Awdurdod Lleol lunio'r canlynol ar gyfer pob blwyddyn o GCSGI:

- **Cynllun Gwaith blynyddol** yn nodi:
 - y prosiectau byddai'r Grant yn cael ei ddefnyddio i'w cynnal;
 - faint o arian a glustnodid i'r prosiectau hynny;
 - pa un o'r tair maen prawf roedd y prosiectau yn ei chyflawni;
 - canlyniadau ac allbynnau pob prosiect.
- Yna, fe wnaeth Llywodraeth Cymru anfon **Llythyr yn Cynnig Grant**, i'w lofnodi gan yr Awdurdod Lleol, yn cadarnhau:
 - cyfanswm yr arian a ddyfarnwyd;
 - rhestr o delerau'r cytundeb;
 - Atodlen 1: cadarnhau dyrannu'r arian ar gyfer pob un o'r prosiectau;
 - Atodlen 2: nodi'r targedau i'w cyflawni gan bob prosiect.
 - roedd Atodlen 1 ac Atodlen 2 yn tueddu i adlewyrchu air am air yr wybodaeth a ddarparwyd gan yr Awdurdodau Lleol yn eu cynlluniau Gwaith.
- Roedd yn ofynnol i Awdurdodau Lleol ddarparu **Adroddiad Monitro Cynnydd Chwe Mis ac Adroddiadau Gwerthuso Lleol**.

Felly, defnyddiwyd dwy fethodoleg graidd i gyflawni briff y tendr:

- **Dadansoddiad o gynnwys** y cynlluniau Gwaith, Llythyrau yn Cynnig Grant ac Adroddiadau Monitro/Gwerthuso Blynyddol o gychwyn y Grant yn 2014-15 hyd at Adroddiad Monitro Cynnydd Chwe Mis 2016-17 (nid oedd Gwerthusiad diwedd blwyddyn 2016-17 wedi'i gwblhau

bryd hynny).

- **Cyfweliadau** Gofynnwyd i bob un o'r 22 Awdurdod Lleol am gyfweliad a chynhaliwyd cyfweliadau ag uwch gynrychiolwyr o 20 ohonynt. Cafwyd adborth hefyd gan Gyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuencid Gwirfoddol (CWVYS), Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) a phum sefydliad o'r sector gwirfoddol (ceisiwyd cysylltu â sawl sefydliad arall, ond yn ofer). Mae Atodiad 1 yn cynnwys rhestr o'r cyfweleion.

3 DOSRANNU INCWM TRWY GYFRWNG GRANT

3.1 Grant o'i gymharu â Chyllid Craidd y GCR

Ym marn **CLILC**, er byddai perygl o ragor o grebachu mewn darpariaeth Gwasanaethau Ieuencid pe cai GCSGI ei dynnu'n ôl neu ei gyfuno â'r GCR, dylai pob grant gael eu cyfuno â'r GCR i'w pennu yn lleol, ar sail anghenion lleol.

Roedd bron iawn pob Prif Swyddog Ieuencid (PSI) a gyfwelwyd yn credu y **dylai GCSGI barhau fel grant sydd ar wahân i'r GCR**. Roedd CWVYS yn cytuno â'r safbwynt hwn. Roedd pryderon fod gwasanaethau Ieuencid wedi cael eu heffeithio'n anghymesur gan doriadau mewn Awdurdodau Lleol, a hyd yn oed mewn Awdurdodau Lleol ble caiff y gwasanaeth gyfran sylweddol o'r GCR a ddarperir iddo, roedd yn dal ymhell o dan 100%. Mae amrywiaeth o ddyfyniadau gan wahanol PSI i'w gweld isod:

"Nid oes sicrwydd y byddem yn cael yr arian pe bai'n cael ei gynnwys yn y GCR"

"Ni fyddwn yn teimlo'n fodlon" pe bai'n cael ei gynnwys yn y GCR.'

"Byddai'n rhaid i mi frwydro i'w gael."

"Byddwn i'n bryderus iawn" pe bai'n cael ei gynnwys yn y GCR.

"Pe bai'n rhan o'r GCR, ni fyddem yn cael ceiniog ohono."

"Mae'n hanfodol ei fod yn cael ei gynnig fel Grant."

"Mae pawb yn bryderus ynghylch beth fydd yn digwydd o fis Ebrill nesaf ymlaen."

Fe wnaeth dau o'r cyfweleion gydnabod, fel y dywedodd un ohonynt, "mai'r fantais o'i gynnwys yn y GCR yw'r ffaith y byddai'r arian yno bob blwyddyn, ond mae'r Grant yn amddiffyn Gwasanaethau Ieuencid." Roedd y ddau yn credu, o ran sicrhau gwasanaethau gwaith Ieuencid, y byddai'n ddiogelach pe cai ei gadw fel grant.

Yn ôl un cyfwelai: "Pe cai ei ymgorffori yn y GCR, byddai'n rhaid ei amddiffyn" a dywedodd un arall "Dylid amddiffyn holl gyllidebau Gwasanaethau Ieuencid."

Roedd un PSI yn fwy niwtral: er yn rhannu'r safbwyntiau uchod, pwysleisiodd hefyd fod nifer o'r prosiectau oedd wedi datblygu'n lleol yn bartneriaethau ag asiantaethau eraill, a chredai y byddai natur tymor byr grant yn llesteirio datblygiad prosiectau o'r fath, ac yn ei gwneud hi'n fwy anodd i gadw staff

da. Dywedodd y byddai sicrhau'r Grant am dair neu bedair blynedd yn creu sefydlogrwydd a byddai hynny'n cynyddu ei effaith, "ond mae natur anwadal grantiau 12 mis yn peri pryder."

3.2 Effaith ar Reoli Newid a Moderneiddio Gwasanaethau

Dywedodd oddeutu 75% (n=15/20) o'r Prif Swyddogion Ieuencid, heb gael eu holi'n benodol, mai un o gryfderau'r grant yw'r **hyblygrwydd** o ran sut gellir ei ddefnyddio. Roedd yr hyblygrwydd hwnnw yn caniatáu iddo gael ei deilwra yn unol ag anghenion ac amgylchiadau lleol oherwydd nid yw'r meini prawf ynghylch y defnydd o'r grant yn rhy benodol. Lleolir gwaith ieuencid mewn gwahanol adrannau mewn gwahanol Awdurdodau Lleol, a gallai hynny ddylanwadu ar y dull o ddefnyddio'r Grant.

Nid yw gwaith papur GCSGI (cynlluniau Gwaith a Gwerthusiadau Blyneddol) yn dangos i ba raddau mae'r PSO wedi defnyddio'r Grant i fynd i'r afael â **phrosesau rheoli newid a moderneiddio yn strategol**. Nid yw'n gofyn am sylwebaeth ynghylch sut gwnaed penderfyniadau ynghylch y blaenoriaethau ar gyfer y Grant, nac ar effaith ailfocysu neu ailstrwythuro. Mae rhywfaint o'r gwaith papur yn adlewyrchu hyn, ond cafwyd mwy o wybodaeth o'r cyfweiliadau na'r hyn a fynegwyd yn y ddogfennaeth.

Yn ychwanegol, roedd PSI yn aml yn awyddus i bwysleisio fod y Grant wedi caniatáu iddynt **ddatblygu, profi ac addasu prosiectau arloesol**, mewn ymateb i anghenion a nodir yn lleol, a darparu gwasanaethau trwy dulliau gwahanol ar adegau gwahanol ac mewn lleoliadau gwahanol. Ystyrid y rhain fel rhai oedd yn wahanol i wasanaethau a ddarperir trwy gyllid craidd, ac yn ychwanegu gwerth atynt, ac felly'n ategu creadigrwydd a moderneiddio.

Yn y cyfweiliadau, gofynnwyd i'r PSI faint oedd eu gwasanaeth wedi newid ers 2014 (effaith ailstrwythuro a/neu ailfocysu); i ba raddau roedd GCSGI wedi cynorthwyo i ddatblygu dulliau creadigol/arloesol; a'r meysydd hynny yr oedd y Grant wedi effeithio fwyaf arnynt. Gwelir rhai enghreifftiau o'u hatebion yn nhabl 1 isod.

Tabl 1: Meysydd Effaith GCSGI

	Rheoli Newid	Meysydd ble cafwyd yr Effaith Mwyaf a'r Prosiectau Mwyaf Arloesol
Ynys Môn	Mae GCSGI wedi braenaru'r tir ar gyfer yr ailstrwythuro sydd ar ddod a fydd yn arwain at ragor o weithwyr ieuencid amser llawn mewn ysgolion a llai o weithwyr rhan amser mewn darpariaeth Mynediad Agored trwy ddatblygu cydweithio agos ag ysgolion. Cynyddwyd y defnydd o'r Grant i ariannu hyfforddiant yn 2016-17 i gynorthwyo â'r broses hon.	Datblygu gwaith achredu yn ystod yr awr ginio mewn ysgolion ac ehangu darpariaeth Gwobr Dug Caeredin.
Blaenau Gwent	Mae'r grant wedi cynorthwyo i ymateb er mwyn diwallu anghenion e.e. yr anghenion a ddaeth i'r amlwg o ymgynghoriad a gynhelir bob dwy flynedd â phobl ifanc – symud y pwyslais tuag at lesiant pobl ifanc, gweithgareddau Gwobr Dug Caeredin.	Datblygu darpariaeth mynediad agored arloesol gyda'r hwyr/ar benwythnosau/ yn ystod y gwyliau mewn canolfan hamdden newydd yng Nglyn Ebwy (mewn ymateb i adborth gan bobl ifanc), a chynnig cyfleoedd i bobl ifanc wirfoddoli, darparu gwaith mewn partneriaeth ac effaith ar ymddygiad

	Rheoli Newid	Meysydd ble cafwyd yr Effaith Mwyaf a'r Prosiectau Mwyaf Arloesol
		gwrthgymdeithasol. Datblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar y cyd â'r sector gwirfoddol.
Pen-y-bont ar Ogwr	Yn ystod cyfnod o doriadau sylweddol yn y gyllideb graidd, roedd GCSGI yn "ddefnyddiol iawn ac yn effeithiol o ran sicrhau fod gan bobl ifanc fynediad at ddarpariaeth y tu allan i amgylchedd eu hysgol." Fe wnaeth hyn gynorthwyo i ddatblygu cysylltiadau cryfach â'r sector gwirfoddol ac annog datblygu arferion a rennir. Roedd Strategaeth Gwaith Ieuencid yn cael ei ddatblygu trwy gyfrwng y Rhwydwaith Cynorthwyo Ieuencid, ac roedd y sector gwirfoddol yn cyfranogi. <i>(Dyfynnwyd o ddogfennau'r Gwerthusiad Blynyddol)</i>	Adroddwyd ynghylch effaith sylweddol o ran symud ymlaen â'r FfYDI, a chafodd gwersi eu dysgu o ran y ffordd orau o gynorthwyo pobl ifanc i symud ymlaen i'w cyrchfannau ôl-16 trwy ddatblygu rôl y Gweithiwr Arweiniol. <i>(Dyfynnwyd o ddogfennau'r Gwerthusiad Blynyddol)</i>
Caerffili	Wedi cynorthwyo i foderneiddio'r gwasanaeth, a chaniatáu iddo gyflawni amcanion yn gyflymach nag y byddai wedi gallu heb y Grant. Ni fyddid wedi gallu symud agenda'r FfYDI ymlaen yn effeithiol heb y Grant. Wedi datblygu/cysoni cyfranogiad: "mae effaith sylweddol wedi'i gyflawni trwy gysylltu â chyfryngau ymgysylltu eraill."	Bydd gweithwyr arweiniol yn cydweithio â nifer sylweddol o bartneriaid i nodi pobl ifanc ym Mlwyddyn 11 sydd mewn perygl o ymddieithrio.
Caerdydd	Datblygu model er mwyn comisiynu gwaith gan y sector gwirfoddol. Datblygu hyfforddiant mwy arbenigol ar gyfer gweithwyr ieuencid.	Datblygu cydweithio gwell ag asiantaethau eraill, yn enwedig ysgolion. Datblygu cryn dipyn o fentora ar gyfer ieuencid: y chydig iawn oedd ar gael yng Nghaerdydd cyn GCSGI, ac mae wedi cynyddu yn ystod pob blwyddyn o'r Grant, ac wedi ymsefydlu mewn ysgolion, ac mae hyn wedi effeithio ar bobl ifanc Nad Ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth neu Hyfforddiant (NEET).
Sir Gaerfyrddin	Dulliau creadigol o Gronni Sawl Ffynhonnell o gyllid a dulliau amlasiantaethol o atal gweithio heb ymwneud ag eraill. Newid cydbwysedd gwasanaethau o feisydd megis beicio mynydd a bwyta'n iach i sicrhau fod gwasanaethau yn ddeniadol i ferched a bechgyn.	Datblygu rôl gweithiwr arweiniol ar y cyd â gweithiwr camddefnyddio sylweddau o'r Tîm Troseddu Ieuencid.

	Rheoli Newid	Meysydd ble cafwyd yr Effaith Mwyaf a'r Prosiectau Mwyaf Arloesol
Ceredigion	<p>Symud oddi wrth weithwyr ieuencid sy'n gweithio mewn ardaloedd penodol, a chydweithio llawer agosach ag ysgolion: mae gweithwyr allgymorth sydd wedi'u hariannu gan y Grant wedi cynorthwyo â'r broses honno.</p> <p>Mae'r dewis o wasanaeth a ddarperir wedi'i ddylanwadu gan ddyuniadau pobol ifanc.</p>	<p>Fe wnaeth y prosiect allgymorth helpu i fynd i'r afael â bwllch o ran anghenion a symud agenda'r FfYDI yn ei flaen trwy gyrraedd at bobl ifanc sy'n NEET.</p> <p>Cyrhaeddiad sylweddol y rhaglen Perthnasoedd/Ffyrdd o Fyw Iach, ag amrywiaeth o weithdai thematig a ddarperir ar draws sawl lleolid gwahanol. Un o'r sgil effeithiau yw'r ffaith fod "ein clybiau ieuencid yn brysurach nag erioed."</p>
Conwy	<p>Fe wnaeth dadansoddiad o fewn y Gwasanaeth Ieuencid ac adborth gan bobl ifanc ddylanwadu ar y dewis o brosiectau mewn ymateb i anghenion sy'n dod i'r amlwg.</p>	<p>Prosiectau arloesol ynghylch delwedd iach (yn cynnwys elfen gyfranogol gref) a gwybodaeth ddigidol wedi dylanwadu'n gadarnhaol.</p> <p>Hyfforddiant i staff ynghylch rheoli ymddygiad heriol.</p>
Sir Ddinbych	<p>Datblygu system atgyfeirio mewn ymateb i anghenion lleol: fe wnaeth adolygiad o ran deiliaid yn 2016 bwysleisio ymhellach werth gwaith ieuencid fel cam i lawr o wasanaethau arbenigol.</p> <p>Mae'r gwasanaeth ieuencid hefyd wedi datblygu partneriaeth â'r gwasanaethau hamdden strategol, ac wedi datblygu rhagor o gyfuno rhwng y gwasanaethau a chynyddu'r cyfleoedd achrededig sydd ar gael ar y cyd â'r gwasanaeth partner.</p>	<p>"Cychwynnodd gwaith gydag ysgolion o ddim" ac mae agenda'r FfYDI yn cyd-fynd â'u syniadau. Mae ariannu trifflyg yn cynnwys arian y Gwasanaeth Ieuencid, ysgolion unigol a'r Adran Addysg wedi llwyddo i ddatblygu'r model o gyflogi gweithwyr ieuencid mewn ysgolion, gan effeithio ar agenda'r FfYDI, i'r fath raddau fod ysgolion bellach yn gofyn i'r gwasanaeth ieuencid: "fe wnawn ni dalu am y ddarpariaeth os gwnewch chi ei rheoli." Byddai hyn wedi bod yn amhosibl heb y Grant.</p> <p>Mae sefydlu darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar y cyd â'r Urdd hefyd yn bwysig.</p>
Sir y Fflint	<p>Datblygu cydweithio gwell â'r sector gwirfoddol trwy eu cynnwys yn y broses gwneud penderfyniadau a phrosesau ymgeisio mewn perthynas â'r Grant.</p>	<p>Mae prosesau ymgeisio yn golygu fod cyrff gwirfoddol bychan sy'n cyflawni'r meini prawf yn gallu ymgeisio am arian, e.e. Y Seibiant, prosiect sy'n ceisio datblygu ymwybyddiaeth ofalgar mewn ysgolion, amrywiaeth o brosiectau gan Urdd Gobaith Cymru; a chymorth i ofalwyr ifanc.</p> <p>Gwersyll preswyl i bobl ifanc heriol a ddylanwadodd yn gadarnhaol arnynt.</p>

	Rheoli Newid	Meysydd ble cafwyd yr Effaith Mwyaf a'r Prosiectau Mwyaf Arloesol
Gwynedd	Symudiad tuag at waith wedi'i dargedu yn canolbwyntio ar bobl ifanc NEET ac yn gysylltiedig â datblygu cydweithio gwell ag ysgolion.	
Merthyr Tudful	Yn ystod y drydedd flwyddyn, trwy gyfrwng dadansoddi anghenion, nodwyd y sgiliau sy'n ofynnol, yn cynnwys posibiliadau i wella sgiliau.	Fe wnaeth datblygu gwasanaethau wedi'u targedu yn gysylltiedig ag agenda'r FfYDI helpu i sefydlu'r dull Gweithiwr Arweiniol. Datblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg na fyddai wedi bodoli fel arall.
Sir Fynwy	Y gallu i wella sgiliau staff. Cynorthwyo i wneud rhagor o waith allgymorth wedi'i dargedu mewn ardaloedd daearyddol ble'r oedd darpariaeth yn brin. "Yr effaith fwyaf yw'r gallu i dyfu'r gwasanaeth."	Gwaith arloesol ynghylch materion LGBT trwy wella ymwybyddiaeth mewn gwasanaethau boreol mewn ysgolion a gweithgareddau preswyl hynod o boblogaidd.
Castell-nedd Port Talbot		Ariannwyd gweithwyr ieuencid i weithio mewn canolfannau gwaith, gan ddatblygu cysylltiadau agosach â'r Adran Gwaith a Phensiynau. Defnydd hyblyg o uned symudol i ddarparu cymorth trwy'r FfYDI ynghylch materion megis cyflogaeth.
Casnewydd		Ystyrir fod symudiad sylweddol tuag at y FfYDI wedi cyfrannu tuag at leihau nifer y bobl ifanc sy'n NEET.
Sir Benfro	Mae'r Gwasanaeth Ieuencid a'r Tîm Troseddu Ieuencid wedi uno, ac mae darpariaeth y gwasanaeth ieuencid wedi'i dargedu yn fwy ac mae'r gwaith troseddu ieuencid yn fwy ataliol.	Ystyrir fod y pwyslais sylweddol ar bobl ifanc NEET ôl-16 wedi bod yn ddylanwadol, a cheir tîm allgymorth sy'n cysylltu â chyflogwyr.
Powys	(Ni chafwyd cyfweiliad â'r PSI)	(Ni chafwyd cyfweiliad â'r PSI)
Rhondda Cynon Taf	Datblygu cydweithio agosach â'r sector gwirfoddol, a defnyddir cyfradd sylweddol o'r GCSGI i gomisiynu gwasanaethau gan y sector gwirfoddol.	Datblygiadau cyfranogol sylweddol, yn cynnwys pobl ifanc yn archwilio gwasanaethau.
Abertawe	Nifer o newidiadau i strwythurau: mae hyfforddiant trwy gyfrwng GCSGI wedi tanategu a chynorthwyo hyn trwy ddatblygu arferion gwaith.	Datblygu agenda'r FfYDI. Datblygu gwasanaethau wedi'u targedu, yn cynnwys gweithgareddau awyr agored wedi'u targedu. Ehangu darpariaeth cyfrwng Cymraeg.
Torfaen	Caiff gwasanaethau eu targedu fwyfwy yn Nhorfaen. Cynnydd mewn gwaith ar y cyd â'r sector gwirfoddol.	Pwyslais sylweddol ar y FfYDI. Un wers a ddysgwyd yw'r ffaith fod gan gyrsiau byr wedi'u targedu ar gyfer

	Rheoli Newid	Meysydd ble cafwyd yr Effaith Mwyaf a'r Prosiectau Mwyaf Arloesol
		grwpiau sydd mewn perygl ganlyniadau cadarnhaol iawn.
Bro Morgannwg	Wedi symud oddi wrth ddarpariaeth mewn adeiladau ac mae darpariaeth symudol a Gwobr Dug Caeredin wedi ehangu.	Cynnydd mewn darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar y cyd â'r sector gwirfoddol.
Wrecsam	Caewyd rhai adeiladau ble dirywiodd y presenoldeb, adnewyddwyd eraill, rhagor o bwyslais ar waith datgysylltiedig/allgymorth, a datblygiad tîm adferol i fynd i'r afael â thargedu gwaith ieuencid ac agendau ataliol cyfiawnder ieuencid.	Datblygu gwaith ieuencid mewn ysbytai, gan gyfuno arian y grant â chyllid ESF. Datblygu mecanweithiau cyfranogi, yn cynnwys rhoi cyfle i bobl ifanc gyfranogi mewn penderfyniadau ynghylch dosbarthu cyllid i'r sector gwirfoddol o brosiect Grantiau Bychan y FfyDI.

3.3 Cydweithio

Gofynnwyd i'r PSI a gyfwelwyd am **effaith y Grant ar gydweithio** ac roeddent yn gadarnhaol iawn ynghylch hynny, ar y lefelau strategol a gweithredol. Cyfeiriwyd at ddau faes yn aml iawn:

- Effaith **agenda'r FfyDI** ar gydweithio â phartneriaid eraill, yn enwedig **ysgolion** (cyfeiriodd 13 PSI at hyn);
- Datblygu trefniadau a phartneriaethau mwy cydweithredol â'r **sector gwirfoddol** (cyfeiriodd 9 PSI at hynny).

3.4 Arian Cyfatebol, Arian wedi'i Gyfuno, a Dulliau Cydweithredol o Ddefnyddio Cyllid

Un elfen o gydweithio y mae angen rhoi sylw penodol iddo yw'r effaith ar **arian cyfatebol, arian wedi'i gyfuno, neu gysoni nifer o ffrydiau cyllido**.

O blih yr 20 PSI a gyfwelwyd, gofynnwyd i 19 i ba raddau roedd GCSGI wedi'u cynorthwyo i ddenu arian cyfatebol o ffynonellau eraill neu wedi'u galluogi i gyfuno cyllidebau.

- **Nid** oedd chwech o'r cyfweleion o Awdurdodau Lleol **wedi defnyddio** GCSGI i gaffael arian cyfatebol (Caerffili, Conwy, Sir y Fflint, Rhondda Cynon Taf, Abertawe a Thorfaen). Dywedodd dau fod ansicrwydd pob grant wedi'u gwneud yn amharod i wneud hynny, a dywedodd un ei fod wedi clywed "straeon arswydus" ynghylch grantiau a ddefnyddiwyd fel arian cyfatebol yn cael eu tynnu'n ôl. Dyma un rheswm ymhlith nifer pam roedd y PSI yn awyddus i sicrhau fod GCSGI yn para am o leiaf tair blynedd, os bydd yn parhau, i sefydlogi trefniadau o'r fath.
- Dywedodd cyfweleion o dri Awdurdod Lleol eu bod yn **bwriadu gwneud hyn** yn y dyfodol (Ceredigion, Gwynedd, Castell-nedd Port Talbot).
- Roedd deg **wedi defnyddio** GCSGI i **gael** arian cyfatebol neu i gyfuno cyllid, neu i gysoni amrywiaeth o ffrydiau ariannu.

- Mae Ynys Môn, Blaenau Gwent, Sir Fynwy, Casnewydd, Sir Benfro a Bro Morgannwg wedi defnyddio prosiectau a ariennir gan **Gronfa Gyndeithasol Ewrop** (ESF) sydd wedi'u hanelu at bobl ifanc sy'n NEET neu mewn perygl o ddod yn NEET (megis TRAC, Ysbrydoli i Gyflawni, Ysbrydoli i Weithio).
- Mae rhywfaint o **gyfuno neu gysoni cyllid** wedi digwydd, yn benodol ar y cyd â **Theuluoedd yn Gyntaf a Chymunedau yn Gyntaf** yng Nghaerdydd, Merthyr Tudful, Sir Benfro, Bro Morgannwg a Wrecsam.

Amcangyfrifodd Sir Benfro fod oddeutu £100 mil o arian GCSGI wedi cynorthwyo i sicrhau oddeutu £200 mil o arian Teuluoedd yn Gyntaf ac oddeutu £150 mil o arian ESF. *Amcangyfrifodd* Sir Ddinbych fod £36 mil o arian GCSGI wedi cynorthwyo i ddenu cyfanswm tebyg o arian gan ysgolion ac Adran Addysg yr Awdurdod Lleol, ac roedd trefniant arian cyfatebol tebyg yn ei le ag Urdd Gobaith Cymru.

Efallai bydd yn ddefnyddiol yn y dyfodol i ofyn i Awdurdodau Lleol adrodd ynghylch sut mae GCSGI wedi'i ddefnyddio i **gysoni cyllid** ar draws nifer o ffrydiau cyllido, o ran y cyllid ychwanegol mae wedi cynorthwyo i'w ddenu trwy arian cyfatebol ac i ba raddau mae cyllidebau wedi'u cyfuno neu wedi'u cysoni wedi cynorthwyo.

O blith y Grantiau arian cyfatebol uchod, mae Cymunedau yn Gyntaf wedi cael ei ostwng ar gyfer 2017-19 i 70% o'i lefelau blaenorol, fel cam tuag at ei ddirwyn i ben, mae Teuluoedd yn Gyntaf yn parhau, a chaiff arian ESF ei effeithio gan ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd.

3.5 Llenwi Bylchau yn Deillio o Doriadau

Gofynnwyd i'r PSI faint o GCSGI oedd wedi cael ei ddefnyddio i **leddfu effaith toriadau**. Dywedodd y mwyafrif nad oedd wedi cael ei ddefnyddio felly, a'i fod yn cael ei ddefnyddio i arloesi ac i ymateb i anghenion sydd newydd gael eu nodi.

Dim ond tri PSI a gynigodd unrhyw enghreifftiau o ddefnyddio'r Grant i dalu cyflogau neu gynnal darpariaeth Mynediad Agored oedd eisoes yn bodoli, gan ddweud nad oedd hyn wedi digwydd tan yn ddiweddar iawn, ond serch hynny, roeddent yn awyddus i bwysleisio cyfraniad y grant at ddatblygiadau creadigol ac arloesol. Dywedodd un o'r rhain: "cafodd ei ddefnyddio yn fwy creadigol yn wreiddiol."

Yn ôl adborth gan CWVYS, pan gomisiynid y sector gwirfoddol i ddarparu gwasanaethau, gwnaed hynny yn aml iawn am gyfran fechan o'r gost a ddeuai i ran Awdurdodau Lleol am ddarparu rhywbeth tebyg, ac roedd yn pwyso ar sgiliau, hyfforddiant a seilwaith arall sefydliadau'r sector gwirfoddol. Felly er bod croeso i'r gwaith ychwanegol, mae'r sector gwirfoddol yn teimlo nad yw'n cael digon o arian. Mae rhagor ynghylch y sector gwirfoddol yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn. Roedd CWVYS yn bryderus am barhad y gostyngiad mewn buddsoddiad a sefydlogrwydd ar gyfer gwaith ieuenctid yn ei gyfanrwydd.

3.6 Crynodeb

Roedd PSI yn gefnogol iawn i'r syniad o barhau i ddsbarthu cyllid trwy GCSGI.

O safbwynt Llywodraeth Cymru, pa mor bwysig neu ddefnyddiol allai GCSGI fod o ran cynorthwyo a sbarduno newid strategol, arloesi, y gallu i fod yn ymatebol i anghenion sy'n dod i'r amlwg, a chysylltu nifer o ffrydiau cyllido? Mynegwyd y themâu hyn yn gryf iawn yn y cyfweiliadau, ond maent yn llai amlwg yn nogfennaeth gwerthuso GCSGI. Roedd y PSI yn credu fod hyblygrwydd yn hanfodol o ran

defnyddio'r Grant i gynorthwyo'r meysydd hyn.

4 MEINI PRAWF Y GRANT

4.1 Adborth ynghylch y Meini Prawf

Dyma dair maen prawf y Grant:

A: Cynorthwyo i weithredu cynllun y **Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid**, yn cynnwys cynorthwyo a hwyluso cyfraniad y sector gwirfoddol.

B: Cynorthwyo **darpariaeth mynediad agored** i ddiwallu **anghenion lleol a llenwi bylchau** a nodwyd yng **Nghynlluniau Integredig Sengl** Awdurdodau Lleol.

C: **Gellir gwario hyd at 25%** i gynorthwyo i ddiwallu **anghenion hyfforddiant staff (yn cynnwys y sector gwirfoddol)**, ond ni ellir defnyddio'r grant hwn i ariannu hyfforddiant generig a ddylai gael ei ddarparu trwy law Awdurdodau Lleol, megis diogelu, iechyd a diogelwch a hylendid bwyd.

Credai PSI fod y tair maen prawf yn **ddefnyddiol ac yn briodol**. Roedd rhai PSI yn credu fod naill ai'r FfYDI neu ddarpariaeth Mynediad Agored yn llai defnyddiol iddynt; a chafwyd sylwadau gan rai yn nodi fod yr elfen hyfforddiant wedi'i gwasgu allan erbyn y drydedd flwyddyn (ceir rhagor o sylwadau ynghylch y pwyntiau hyn yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn), ond ar y cyfan, ystyrir fod y tair maen prawf yn ddefnyddiol.

Fe wnaeth un cyfwelai grynhoi'r farn gyffredinol: *"Maent yn benodol ac yn hyblyg: mae hynny'n caniatáu i'r gwariant gael ei bennu'n lleol yn unol ag anghenion a blaenoriaethau lleol."*

4.2 Sut Cafodd yr Arian ei Gyllidebu Ar Draws y Tair Maen Prawf (Y Tair Blynedd)

Fe wnaeth y cynlluniau Gwaith ar gyfer pob Awdurdod Lleol am bob blwyddyn ddatgan faint o'r Grant a bennwyd iddynt a fyddai'n cael ei wario ar wahanol brosiectau a pha un o'r tair maen prawf fyddai'r prosiectau hynny yn eu cyflawni. Fe wnaeth hyn ganiatáu i'r adolygydd gyfrifo faint o gyfanswm y gyllideb a wariwyd ar y tair maen prawf. Os oedd prosiect yn cael ei ddisgrifio fel un oedd yn cyflawni dwy neu dair maen prawf, cafodd y gyllideb ei rhannu'n gyfartal rhwng y meini prawf: o ganlyniad, mae'n debyg fod hyn yn gorddatgan y gwariant ar hyfforddiant, ond hwn oedd y dull symlaf.

Dyfarwyd cyfanswm o **£8.268m** am y tair blynedd rhwng 2014-15 a 2016-17 trwy GCSGI. Gwariwyd oddeutu **56% (£4.6m)** ar weithgareddau'r **FfYDI**, defnyddiwyd **33% (£2.7m)** i gynorthwyo prosiectau darpariaeth **Mynediad Agored a Chynlluniau Integredig Sengl**, a gwariwyd **11% (£0.94m)** ar **Hyfforddiant** (gweler tabl 2).

Tabl 2: Dosbarthiad cyllideb GCSGI ar draws y tair mae prawf

	Dyfarwyd	Cyllideb ¹	A: FFYDI		B: MA/CIS		C: Hyfforddiant	
Pob blwyddyn	£8,268,001.00	£8,262,787.39	£4,611,649.92	56%	£2,713,056.84	33%	£938,080.61	11%
2014-15	£2,756,000.00	£2,753,822.39	£1,384,854.88	50%	£ 966,841.88	35%	£402,125.63	15%
2015-16	£2,756,000.00	£2,755,969.00	£1,604,658.01	58%	£ 842,661.01	31%	£308,649.98	11%
2016-17	£2,756,001.00	£2,752,996.00	£1,622,137.04	59%	£ 903,553.96	33%	£227,305.00	8%

Gellid edrych ar brosiectau'r FfYDI i ystyried a oeddent yn canolbwyntio'n bennaf ar bobl ifanc oedd mewn perygl o ddod yn NEET neu rai oedd eisoes yn NEET. Dros y dair blynedd, cyfeiriwyd oddeutu


¹ Fel y nodwyd yng Nghynlluniau Gwaith GCSGI Awdurdodau Lleol. Weithiau, roedd y rhain yn is na'r symiad a ddyfarnwyd.

49% o gyfanswm cyllideb GCSGI (£4.043m) tuag at bobl ifanc oedd **mewn perygl o ddod yn NEET** ac oddeutu **31%** (£2.575m) tuag at bobl ifanc oedd yn **NEET**. Daliwch sylw: roedd nifer o brosiectau yn mynd i'r afael â'r ddwy elfen, felly mae'r ffigurau'n gorgyffwrdd.

Mae'r **cyfartaledd o 11% ar hyfforddiant gryn dipyn yn is na'r uchafswm o 25%** a ganiatawyd o dan y Grant. Rhwng 2002 a 2011, bu gostyngiad o £1,217,000 i £491,000 yn yr adnoddau ariannol oedd ar gael gan Lywodraeth Cymru trwy'r Grant Hyfforddiant a Datblygu Gwaith leuenctid: erbyn 2016-17, roedd Awdurdodau Lleol yn clustnodi £227,305 yn unig o'u cyllideb GCSGI i dalu am hyfforddiant (byddai'r uchafswm o 25% oedd ar gael y flwyddyn honno wedi bod yn gyfystyr â £689,000).

Dengys Ffigur 1 sut mae **patrwm y gwariant ar draws y tair maen prawf yn newid dros y blynyddoedd**. Mae gwariant ar y FfYDI yn cynyddu'n sylweddol yn ystod 2016-16, ac mae'r Gwariant ar hyfforddiant yn gostwng trwy gydol y cyfnod.

Ffigur 2: Y gyllideb yn ôl y tair maen prawf ar draws tair blynedd y Grant



Dengys Tabl 3 **sut gwnaeth patrymau dosrannu'r gyllideb newid ar draws y tair blynedd o fewn Awdurdodau Lleol unigol**. Felly, cynyddodd y gyllideb ar gyfer y FfYDI rhwng 2014-15 a 2017-17 mewn 11 Awdurdod Lleol, a gostyngodd Hyfforddiant mewn 15 Awdurdod Lleol. Yn y tri Awdurdod Lleol ble cafwyd cynnydd mewn hyfforddiant ar draws y tair blynedd, gwnaed hyn i ategu ailstrwythuro.

Tabl 3: GCSGI ar draws y tair maen prawf a sut gwnaeth patrymau gwariant newid


	A: FfYDI	B: MA/CIS	C: Hyfforddiant
Cynyddodd y gyllideb	11	5	3
Cyllideb sefydlog	7	7	4
Gostyngodd y gyllideb	3	9	15
Dim cyllideb tuag at y meini prawf hyn	1	1	0

4.3 Cyllideb yn ôl y Tair Maen Prawf yn 2016-17 (Blwyddyn 3) ym mhob Awdurdod Lleol

4.3.1 Cyllideb y Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid 2016-17


Dengys Ffigur 2 faint o GCSGI a glustnodwyd i'r FfyDI gan bob Awdurdod Lleol yn 2016-17.

Ffigur 2: Y gyllideb a glustnodwyd i'r FfyDI ym mhob Awdurdod Lleol yn 2016-17



O gofio cyfanswm gwahanol y gyllideb oedd ar gael i bob Awdurdod Lleol, mae'n ddefnyddiol gallu gweld faint o'u cyllideb a gyfeiriwyd tuag at y FfyDI (ffigur 3). Mae'n debyg y bydd rhesymau da iawn pam gwnaeth rhai Awdurdodau Lleol wario cyfran sylweddol o gyllideb GCSGI ar y maen prawf hon ac ychydig iawn yn achos rhai eraill, ond mae diffyg gofyniad i gynnwys gwybodaeth ynghylch dadansoddiad o anghenion a/neu ddewisiadau strategol yn golygu mai prin iawn yw'r wybodaeth o ddogfennaeth GCSGI ynghylch yr agwedd hon.


Ffigur 3: Cyfran o'r gyllideb a glustnodwyd i FfyDI ym mhob Awdurdod Lleol yn 2016-17



4.3.2 Cyllideb Mynediad Agored/Cynllun Integredig Sengl 2016-17


Dengys Ffigur 4 faint o GCSGI a glustnodwyd i Ddarpariaeth Mynediad Agored/CIS gan bob Awdurdod Lleol yn 2016-17.

Ffigur 4: Y gyllideb a glustnodwyd i Ddarpariaeth Mynediad Agored/CIS ym mhob Awdurdod Lleol yn 2016-17



Dengys Ffigur 4 faint o'u cyllideb CGSGI y gwnaeth Awdurdodau Lleol ei chyfeirio tuag at Ddarpariaeth Mynediad Agored/CIS. Unwaith eto, mae diffyg gwybodaeth ynghylch dadansoddi anghenion neu ddewisiadau strategol yn golygu nad yw'r rheswm pam fod hyn yn uchel neu'n isel mewn gwahanol Awdurdodau Lleol i'w weld yng ngwaith papur CGSGI. Er enghraifft, dylanwadir ar hyn gan ddigonolrwydd darpariaeth Mynediad Agored sydd eisoes yn bodoli a/neu strategaethau lleol i ailstrwythuro/aillfocysu'r ddarpariaeth honno. Mae'n dangos sut gwnaeth Awdurdodau Lleol gwahanol roi gwahanol bwyslais ar Faen Prawf A (FFYDI) a Maen Prawf B (Mynediad Agored/CIS).


Ffigur 5: Y gyfran o'r gyllideb a bennwyd i Ddarpariaeth Mynediad Agored/CIS ym mhob Awdurdod Lleol yn 2016-17



4.3.3 Cyllideb Hyfforddiant 2016-17


Dengys Ffigur 6 faint o GCSGI a glustnodwyd i Hyfforddiant gan bob Awdurdod Lleol yn 2016-17. Daliwch sylw: mae hyn yn canolbwyntio ar gyllideb ar gyfer hyfforddiant o'r Grant *yn unig*. Efallai fod Awdurdodau Lleol wedi defnyddio cronfeydd eraill i dalu am hyfforddiant. Os rhywbeth, efallai fod hyfforddiant wedi'i orbwysleisio ychydig: os disgrifid prosiect fel un oedd yn cyflawni'r tair maen prawf, cafodd y gyllideb ar ei gyfer ei dosrannu'n gyfartal rhwng pob maen prawf ac mae'n debyg fod hynny'n cynyddu rhai ffigurau Hyfforddiant.

Ffigur 7: Y gyllideb a glustnodwyd i Hyfforddiant ym mhob Awdurdod Lleol yn 2016-17



Dengys Ffigur 7 faint o'u cyllideb CGSGI y gwnaeth Awdurdodau Lleol ei chyfeirio tuag at ddarparu Hyfforddiant.

Ffigur 7: Y gyfran o'r gyllideb a glustnodwyd i Hyfforddiant ym mhob Awdurdod Lleol yn 2016-17



Nid oedd modd nodi faint o'r gyllideb hyfforddiant a ddefnyddiwyd i ariannu **hyfforddiant gwaith ieuentid proffesiynol** (cymwysterau Gweithiwr Cymorth Ieuentid L2/L3 neu gymwysterau Gradd L4-L7) yn hytrach na hyfforddiant mwy cyffredinol. Dim ond pum Awdurdod Lleol a glustnododd gyllideb yn benodol tuag at gymwysterau gwaith ieuentid proffesiynol (yn achos eraill, cafodd ei hymgorffori mewn cyllideb hyfforddiant mwy cyffredinol). Yn 2015-16, roedd gan **89% o'r holl staff darparu gwaith ieuentid gymhwyster proffesiynol a gydnabyddid gan y Cydgyngor Trafod Telerau (JNC)** ar lefel dau o leiaf (*Gwaith Ieuentid yng Nghymru, 2015-16*). Mae Tabl 4 yn dangos y ganran o gyllideb GCSGI a wariwyd ar hyfforddiant ynghyd â chanran y staff a hyfforddwyd hyd at Lefel 2 JNC o leiaf, ac ychydig iawn o berthynas sydd i'w weld rhwng y ddau ffigur.

Tabl 4: Cyfran o'r gyllideb a glustnodwyd i Hyfforddiant yn 2016-17 a'r Ganran o staff â chymhwyster JNC ar lefel 2 o leiaf yn 2015-16

Awdurdod Lleol	Gwariant ar Hyfforddiant	% â Chymhwyster JNC (o leiaf lefel 2)	# Heb gymhwyster JNC ar lefel 2 ond wrthi'n hyfforddi	# Heb gymhwyster JNC ar lefel 2 a ddim yn hyfforddi
Sir y Fflint	20%	86%	6	14
Sir Fynwy	20%	91%	0	9
Ynys Môn	19%	74%	7	3
Gwynedd	16%	95%	0	11
Merthyr Tudful	15%	99%	0	1
Wrecsam	14%	97%	5	0
Sir Benfro	10%	87%	2	18
Abertawe	10%	64%	9	3
Powys	9%	89%	0	4
Conwy	8%	97%	5	1
CYMRU	8%	89%	84	108
Pen-y-bont ar Ogwr	7%	100%	0	0
Caerdydd	7%	99%	4	0
Bro Morgannwg	7%	94%	9	9
Blaenau Gwent	6%	98%	2	0
Caerffili	5%	71%	14	17
Castell-nedd Port Talbot	5%	92%	1	17
Sir Gaerfyrddin	4%	97%	0	1
Sir Ddinbych	4%	98%	3	0
Casnewydd	4%	95%	7	0
Torfaen	3%	83%	5	0
Ceredigion	1%	90%	1	0
Rhondda Cynon Taf	1%	92%	4	0

Dyfynnir y data ynghylch *nifer* y staff â chymhwyster JNC o: <https://stats.wales.gov.wales/Catalogue/Education-and-Skills/Youth-Service/Workforce/managementanddeliverystaff-by-localauthority-qualifications> accessed 30/6/17. Dyfynnir data ynghylch *canrannau* o *Gwaith Ieuentid Cymru 2015-16*

Byddai'n ddefnyddiol i raddau gallu **rhannu'r meini prawf ynghylch hyfforddiant fel bod y gwariant ar gymwysterau proffesiynol ar wahân i wariant ar hyfforddiant eraill**, fel y gellir ei gysylltu'n agosach ag anghenion a diffygion o fewn awdurdodau lleol.

5 ELFENNAU ERAILL O'R STRATEGAETH GWAITH IEUENCTID

5.1 Cynorthwyo Pobl Ifanc i Ddatblygu Sgiliau Bywyd a Gwydnwch

Yn un adran o'r *Strategaeth Gwaith Ieuencid Genedlaethol ar gyfer Cymru 2014-2018* o'r enw *Helpu pobl ifanc i ddatblygu sgiliau bywyd a gwydnwch*, dywedir y canlynol (mae'r adolygydd wedi tywyllu'r testun i'w amlygu):

Dylai camau gweithredu Llywodraeth Cymru a chamau gweithredu partneriaid a sefydliadau cyflawni allweddol gefnogi'r canlyniadau strategol canlynol o ddarpariaeth gwaith ieuencid.

- Mae darpariaeth gwaith ieuencid ar gael i bob person ifanc yng Nghymru ac yn gweithredu fel **gwasanaeth ataliol effeithiol**, gan helpu pobl ifanc i **ymgysylltu a datblygu ym maes addysg a hyfforddiant er mwyn eu paratoi ar gyfer byd gwaith ac, yn fwy cyffredinol, bywyd fel oedolion.**
- Defnyddir **darpariaeth mynediad agored** yn effeithiol i ymgysylltu â phobl ifanc y mae angen cymorth mwy penodol arnynt a'u cyfeirio at y cymorth priodol
- **Mae darpariaeth gwaith ieuencid yn rhyngweithio'n effeithiol â darparwyr addysg ffurfiol** er mwyn helpu i **sicrhau canlyniadau cadarnhaol i bobl ifanc a lleihad parhaus yn nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.**
- Caiff darpariaeth **gwaith ieuencid statudol a gwirfoddol** ei chysoni a'i chyflwyno i bobl ifanc mewn cynnig cydlynol.
- Mae darpariaeth gwaith ieuencid yn cyfrannu'n strategol at **Strategaeth y Gymraeg; Iaith Fyw** ac yn creu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg mewn lleoliadau cymdeithasol.
- Mae darpariaeth gwaith ieuencid yn dangos sut mae'n **cefnogi blaenoriaethau trawslywodraethol** (gan gynnwys Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, addysg, iechyd a lles, trechu tlodi.

Cyn trafod effaith GCSGI ar y tair maen prawf, mae'n werth ystyried sut gwnaeth GCSGI effeithio ar feysydd eraill y Strategaeth Gwaith Ieuencid, sef:

- Darpariaeth cyfrwng Cymraeg;
- Y sector gwaith ieuencid gwirfoddol;
- Dangosyddion Llesiant cenedlaethol.

5.2 Yr Iaith Gymraeg

Fe wnaeth un ar ddeg Awdurdod Lleol ariannu prosiectau oedd yn cynnwys hyrwyddo iaith a/neu Ddiwylliant Cymru fel elfennau allweddol, ac roedd nifer ohonynt yn Awdurdodau Lleol ble'r oedd y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn wan cyn hynny. Dros dair blynedd, roedd y gwariant hwn yn **£633k (7.7%)** o gyfanswm y Grant.

Mae'n bwysig cofio fod y ffigur hwn yn ymwneud â'r Grant yn unig ac nid yw'n adlewyrchu cyfanswm yr arian gan Awdurdodau Lleol tuag at ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Er enghraifft, nid oedd gan unrhyw un o'r pedwar Awdurdod Lleol sydd â'r ganran uchaf o siaradwyr y Gymraeg (Ynys Môn, Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Gwynedd) unrhyw brosiectau wedi'u hariannu gan GCSGI oedd wedi'u hanelu at hyrwyddo iaith a diwylliant Cymru, ond dyma'r rhai oedd yn fwyaf tebygol o fod yn darparu holl brosiectau GCSGI yn ddwyieithog. Dengys Arolwg Gwaith Ieuenctid 2015-16 hefyd fod gan yr Awdurdodau Lleol hyn y ganran uchaf o brosiectau gwaith ieuenctid wedi'u cynnal yn gyfangwbl neu'n bennaf yn Gymraeg (nid brosiectau GCSGI yn unig: pob prosiect lleol).

Fodd bynnag, dywedodd sawl Awdurdod Lleol fod ehangu GCSGI wedi sicrhau effaith pwysig ar **ehangu darpariaeth cyfrwng Cymraeg** yn eu hardal (gweler tabl 1 yn adran 3.2 – *Effaith ar Reoli Newid a Moderneiddio Gwasanaethau*).

5.3 Y Sector Gwaith Ieuenctid Gwirfoddol

Fe wnaeth pedwar ar ddeg o Awdurdodau lleol gomisiynu prosiectau gan y sector gwirfoddol. Darparwyd 29 prosiect o dan GCSGI yn llawn neu'n rhannol gan y sector ieuenctid gwirfoddol. Mewn gwirionedd, fe wnaeth sawl un o'r 'prosiectau' hyn ariannu nifer o brosiectau llai (e.e. cynllun Grantiau Bychan yn Wrecsam). Mae Urdd Gobaith Cymru a Menter Iaith Cymru yn ymddangos yn rheolaidd fel derbynyddion, a gwelir gorgyffwrdd â hyrwyddo'r iaith Gymraeg. Weithiau, roedd diffyg manylion ynghylch pa sefydliadau gwirfoddol a ddarparodd y prosiectau hyn mewn gwirionedd.

Roedd y gwariant hwn yn **£1.422m** o'r cyllid dros dair blynedd, neu oddeutu **17%** o'r Grant (o'i gymharu, fe wnaeth Cynllun Grantiau Cyrff Ieuenctid Gwirfoddol Cenedlaethol [CIGC] ddosbarthu cyllid gwerth oddeutu £655 mil y flwyddyn o 2015 ymlaen).

Ni chafodd hyn ei ddosbarthu'n gyfartal. Yn ystod y tair blynedd, fe wnaeth Rhondda Cynon Taf gyfeirio £290 mil o'r GCSGI tuag at y sector gwirfoddol; rhoddodd Sir y Fflint oddeutu £198 mil; rhoddodd Ceredigion oddeutu £165 mil, a rhoddwyd symiau sylweddol hefyd gan Ynys Môn, Pen-y-bont ar Ogwr, Caerdydd, Sir Gaerfyrddin ac Abertawe. Defnyddiwyd y cyllid hwn tuag at Maen Prawf A (FFYDI) a Maen Prawf B (Mynediad Agored) wedi'u cyfuno neu tuag at Faen Prawf B ei hun; ychydig iawn a ddefnyddiwyd tuag at Maen Prawf A yn unig. Mae adborth gan CWVYS hefyd yn awgrymu fod sefydliadau'r sector gwirfoddol wedi cyfeirio at berthnasoedd gwaith cadarnhaol, yn benodol â Chaerffili, Gwynedd, Merthyr Tudful a Bro Morgannwg (bydd llawer o'r perthnasoedd hynny wedi cael ei datblygu ar wahân i GCSGI).

Dywedodd deuddeg Awdurdod Lleol hefyd eu bod wedi defnyddio GCSGI i ariannu **hyfforddiant oedd yn cynnwys y sector ieuenctid gwirfoddol**. Fodd bynnag, anaml iawn y cyfeiriwyd yn benodol at y swm o arian a wariwyd ar hyfforddiant i'r sector gwirfoddol, ac roedd manylion y nifer o bobl yn y sector gwirfoddol a gafodd yr hyfforddiant hwnnw ar goll yn llwyr fwy neu lai. Os hyfforddwyd pobl o'r sector gwirfoddol, prin iawn oedd yr wybodaeth yn adroddiadau'r Gwerthusiad Blyneddol.

Mae trafodaethau â rhai o sefydliadau'r sector gwirfoddol yn awgrymu **nad oeddent yn gwybod yn aml iawn fod y cyllid yn deillio o GCSGI** yn hytrach na ffrydiau cyllido eraill.

Anaml iawn y gwnaeth y sector gwaith ieuenctid gwirfoddol **gyfranogi mewn penderfyniadau ynghylch sut ddylid gwario GCSGI**. Efallai eu bod wedi cyfranogi mewn dadansoddiadau o anghenion neu anghenion hyfforddiant, ond ychydig iawn o gyfweleion o'r sector gwirfoddol a ddywedodd fod y sector ieuenctid gwirfoddol wedi cyfrannu'n uniongyrchol at benderfyniadau ynghylch

gwariant.

Mae **rhannu gwybodaeth** am GCSGI gan Awdurdodau Lleol wedi bod yn anghyson felly.

Ar y cyfan, efallai fod y sector ieuenctid gwirfoddol wedi cyfranogi rhagor yn yr uchod, ond **nid yw** adroddiadau monitro a gwerthuso presennol y grant **yn eglur a thryloyw bob amser** mewn perthynas â hyn. Fodd bynnag, dywedodd sawl Awdurdod Lleol fod GCSGI wedi'u cynorthwyo i ddatblygu trefniadau partneriaeth mwy cydweithredol â'r sector gwirfoddol.

5.4 Dangosyddion Llesiant Cenedlaethol

5.4.1 Dangosyddion Llesiant Cenedlaethol o fewn y Ddogfen Ymgynghori Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol ar gyfer Gwaith Ieuenctid (Mawrth 2016)

Roedd dogfen ymgynghori Llywodraeth Cymru, *Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol ar gyfer Gwaith Ieuenctid* (Mawrth 2016) yn cynnwys rhestr o Ddangosyddion Llesiant Cenedlaethol perthnasol, wedi'u dyfynnu o ddogfen a gyhoeddodd Llywodraeth Cymru yn 2015 o'r enw *Sut mae mesur cynnydd cenedl*.

Mae'n debyg mai dyma'r dangosyddion sy'n fwyaf perthnasol i GCSGI:

03	Pobl yn dewis ffyrdd o fyw iach
05	Pobl ifanc yn gadael yr ysgol â sgiliau a chymwysterau
07	Pobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant
17	Mae pobl yn teimlo y gallant gyfrannu at benderfyniadau lleol
18	Pobl sy'n gwirfoddoli
22	Llesiant meddyliol cadarnhaol i bawb
25	Pobl sy'n ymwneud â'r celfyddydau, diwylliant a threftadaeth
26	Pobl sy'n defnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau beunyddiol
27	Pobl sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon

Ni ofynnwyd i Awdurdodau Lleol a oedd disgwyl i'w prosiectau effeithio ar unrhyw un o'r Dangosyddion Cenedlaethol hyn, ac os bydd GCSGI yn parhau, gall fod yn ddefnyddiol sicrhau fod y cysylltiadau hynny yn eglur.

Gwnaed sylwadau eisoes ynghylch 26 (laith Gymraeg) ac mae 7 (pobl ifanc sy'n NEET) wrth wraidd agenda'r FfyDI. Gellir hefyd cynnig sylwadau ynghylch dau Ddangosydd Cenedlaethol arall: 17 (Pobl yn teimlo y gallant gyfrannu at benderfyniadau lleol) a 18 (Pobl sy'n gwirfoddoli).

5.4.2 Dangosydd 17: Mae pobl yn teimlo y gallant gyfrannu at benderfyniadau lleol

Diffiniwyd hyn fel unrhyw brosiect sy'n datblygu strwythurau a phrosesau yn gyfangwbl neu'n rhannol i gynnwys pobl ifanc mewn gweithgareddau **cyfranogi**. Dros y tair blynedd, roedd hyn yn **£675,460 (8.2%** o wariant GCSGI) ar draws naw Awdurdod Lleol.

5.4.3 Dangosydd 18: Pobl sy'n Gwirfoddoli

Diffiniwyd hyn fel unrhyw brosiect sy'n datblygu **gwirfoddolwyr** yn gyfangwbl neu'n rhannol (nid yw'n eglur a yw 'gwirfoddolwyr' yn cyfeirio at bobl ifanc neu oedolion, ond cymerir yn ganiataol y cyfeiriwyd at bobl ifanc bob tro). Dros y tair blynedd, roedd hyn yn **£634,974 (7.7%** o wariant GCSGI) ar draws naw Awdurdod Lleol (roedd wyth ohonynt yr un fath â'r dangosydd ynghylch cyfranogi).

5.4.4 Crynodeb

Os bydd GCSGI yn parhau, efallai bydd yn fuddiol i raddau gofyn i Awdurdodau Lleol gynnig sylwadau

ynghylch pa rai o'r Dangosyddion Cenedlaethol y mae pob prosiect yn debygol o effeithio arnynt. Byddai angen gwahaniaethu rhwng prosiectau y byddai'r Dangosyddion yn ffocws pennaf iddynt (a dylai'r prosiectau hynny fod â thargedau cysylltiedig ynghylch canlyniadau/allbynnau) a phrosiectau ble byddai'r Dangosydd yn fudd eilaidd (dim gofyniad o ran targedau).

Pe bai hyn yn ei le, gellid ystyried dosraniad y gyllideb yn unol â'r tabl isod (sydd wedi'i lenwi'n rhannol â gwybodaeth sy'n hysbys).

Dangosydd Cenedlaethol	Cyllideb a ddylai effeithio'n llwyr neu'n rhannol ar y dangosydd hwn	% o gyfanswm Cyllideb GCSGI
03	Pobl yn dewis ffyrdd o fyw iach	
05	Pobl ifanc yn gadael yr ysgol â sgiliau a chymwysterau	
07	Pobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (FfYDI)	£4,611,649.92 56%
17	Mae pobl yn teimlo y gallant gyfrannu at benderfyniadau lleol	£675,460.00 8.2%
18	Pobl sy'n gwirfoddoli	£634,974.00 7.7%
22	Llesiant meddyliol cadarnhaol i bawb	
25	Pobl sy'n ymwneud â'r celfyddydau, diwylliant a threftadaeth	
26	Pobl sy'n defnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau beunyddiol	£633,483.00 7.7%
27	Pobl sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon	

6 PENDERFYNIADAU YNGHYLCH GWARIANT

6.1 Pwy Gyfrannodd at Benderfyniadau ynghylch sut i Wario'r Grant?

Holwyd yr 20 PSI a gyfwelwyd **pwy a gyfrannodd at benderfyniadau** ynghylch sut byddai GCSGI yn cael ei wario:

- Fe wnaethant oll gynnwys **hwy eu hunain a'u tîm rheoli**, a'u rheolwyr llinell hwy eu hunain yn achos rhai hefyd. Yn aml iawn, y prif wneuthurwyr penderfyniadau oedd y rhain yn ystod blwyddyn gyntaf y Grant, ond cafodd yr ymgynghori ei ehangu yn ystod y blynyddoedd dilynol.
- Nid oedd hi mor eglur o ran faint wnaethant gynnwys eu **staff** eu hunain, a dim ond saith a gyfeiriodd yn benodol at eu grŵp staff ehangach.
- Cyfeiriodd wyth at **gyfranogiad pobl ifanc**. Gwnaed hyn yn bennaf trwy gyfranogi â phobl ifanc ynghylch eu dymuniadau a'u barn am wasanaethau oedd yn bodoli yn barod. Yn Sir y Fflint, yn achos prosiectau oedd yn gallu ymgeisio am arian, cyfranogodd rhywfaint o bobl ifanc yng ngwaith y Panel a benderfynodd pa brosiectau i'w hariannu; yn debyg, yn Wrecsam, fe wnaethant gyfranogi mewn penderfyniadau ynghylch dyfarnu Grantiau Bychan a ariannwyd gan GCSGI.

- Fe wnaeth saith gyfeirio at ymagwedd strategol **ar draws isadrannau ac adrannau gwahanol o fewn yr Awdurdod Lleol**. Er enghraifft, dywedodd Blaenau Gwent: “Mae gennym ni Grŵp Gwella Dyheadau i oruchwylio GCSGI. Bydd yn ystyried cyfleoedd newydd i ddefnyddio grantiau ac yn penderfynu pwy ddylai ddatblygu'r gwaith i osgoi cystadlu a dyblygu. Mae wedi arwain at eglurder ynghylch ble yn union mae'r bylchau.”
- Cyfeiriodd dau at gynnwys **asiantaethau partner statudol o du allan i'r Awdurdod Lleol**. Efallai fod rhagor wedi'u cynnwys ond ni chyfeiriwyd atynt yn y cyfweiliadau. Dywedodd un PSI: “Bydd dymameg sy'n newid yn aml yn llesteirio'r gallu i siarad ag asiantaethau eraill.”
- Cyfeiriodd dau at gynnwys y **Sector Ieuenctid Gwirfoddol** (Sir Ddinbych a Sir y Fflint). Dywedodd un arall: “Ni wnaethom gynnwys y sector ieuenctid gwirfoddol: maent eisoes yn cael swm sylweddol o'n harian craidd, ac roeddem yn dymuno canolbwyntio ar bobl ifanc sy'n NEET, yn unol â'r strategaeth.”
- Dim ond un a gyfeiriodd at gynnwys **partneriaid Rhanbarthol**, yn enwedig mewn perthynas â hyfforddiant rhanbarthol (ond mae'n amlwg fod hyfforddiant Rhanbarthol wedi digwydd yng Ngogledd Cymru, De-ddwyrain Cymru a Gorllewin Cymru).

O gofio fod hwn yn gwestiwn agored yn y cyfweiliad, efallai y dywedwyd rhy ychydig am rai o'r ffigurau uchod.

Cyfeiriwyd at y defnydd o **ddadansoddi anghenion a data lleol** (e.e. ynghylch pobl ifanc sy'n NEET neu Ymddygiad Gwrthgymdeithasol) gan chwe chyfwelai yn unig. Prin iawn yw'r eglurhad hefyd yn y gwaith papur ategol ynghylch y dadansoddiad o anghenion sydd wrth wraidd penderfyniadau. Dim ond dau Awdurdod Lleol a wnaeth gyfeiriad penodol at y bylchau a nodwyd yn y Cynlluniau Integredig Sengl Lleol (er nad yw'r CIS eu hunain mor gryf ar y cyfan o ran nodi bylchau yn ymwneud â gwasanaethau gwaith ieuenctid). Fodd bynnag, ni ofynnwyd i Awdurdodau Lleol ddarparu'r wybodaeth hon yn eu cynlluniau Gwaith, felly ni fyddai'n deg eu beirniadu am hyn.

6.2 Gosod Prosesau Gwneud Penderfyniadau mewn Cyd-destun Ehangach

Mae'r prosesau monitro a gwerthuso yn canolbwyntio ar y darlun bychan, sef effaith prosiectau, yn hytrach na'r darlun ehangach ynghylch dewisiadau strategol, newid a'r effaith ar y boblogaeth gyfan.

Mae'r **gwahaniaethau yn nulliau Awdurdodau Lleol o ddefnyddio CGSCI yn adlewyrchu anghenion lleol, cyd-destunau lleol a blaenoriaethau strategol**. Er enghraifft:

- Ble caiff y Cydlynnydd Ymgysylltu a Datblygu a Rheolwr y Gwasanaeth Ieuenctid eu rheoli gan yr un unigolyn, gallai hynny wthio'r defnydd o'r grant tuag at y FfyDI.
- Os yw darpariaeth Mynediad Agored neu ddarpariaeth Cyfrwng Cymraeg neu gan y Sector Ieuenctid Gwirfoddol eisoes yn gryf a/neu eisoes yn cael eu hariannu'n dda o'r gyllideb graidd, gallent fod yn llai o flaenoriaeth yn achos GCSGI.
- Os yw'r Awdurdod Lleol wedi profi gostyngiad sylweddol yn ei gyllideb graidd, ac/neu wedi gwneud penderfyniad strategol i is-gontractio gwasanaethau, gallai hynny arwain at ddefnydd sylweddol o GCSGI i ariannu a datblygu gwasanaethau Mynediad Agored wedi'u comisiynu.

- Os rheolir y Gwasanaeth Ieuenctid ynghyd â thimau a/neu ffynonellau ariannu eraill (e.e. Tîm Trosedd Ieuenctid, Cymunedau yn Gyntaf, Teuluoedd yn Gyntaf), gallai hynny ddylanwadu ar benderfyniadau. Cyfeiriodd sawl cyfwelai at werth a phwysigrwydd gallu cysoni amrywiaeth o ffrydiau cyllido.

Mae CGSGI yn cael ei adolygu ar wahân i'r darlun lleol ehangach, ond mewn gwirionedd, mae'n rhan o'r jig-so hwnnw. Felly, os bwriedir i'r CGSGI barhau, a gan gymryd yn ganiataol y caiff rhyw fath o Asesiadau o Ddigonolrwydd eu datblygu, sut ddylai'r ddau gyd-fynd â'i gilydd?

I ddangos hyn, mae ffigur 9 yn dangos patrwm y canrannau o bobl ifanc a adawodd yr ysgol ym Mlwyddyn 11 ac a oedd yn NEET a chanran GCSGI a ddefnyddiwyd ar gyfer y FfYDI yn ystod cyfnod y Grant. Ym mhob ardal Awdurdod Lleol, fe wnaeth canran y sawl a adawodd yr ysgol ym Mlwyddyn 11 ac a oedd yn NEET ostwng yn y cyfnod 2013-16. Ond nid oes perthynas â'r gyfran o GCSGI a wariwyd ar y FfYDI. Gallai fod yn ddadlennol dangos sut mae GCSGI yn cyd-fynd ag agenda ehangach y FfYDI, a sut mae'r agenda hwnnw yn cael ei ddatblygu.

Ffigur 8: Disgyblion Blwyddyn 11 a adawodd ysgolion yng Nghymru y gwyddid nad oeddent mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant ym mhob awdurdod lleol (blwyddyn yn diwedd y Rhagfyr) a % o wariant GCSGI ar y FfYDI 2014-17 (3 blynedd)

	% y bobl ifanc oedd yn NEET				% o GCSGI a gyllidebwyd ar gyfer y FfYDI 2014-17
	2013	2014	2015	2016	
Castell-nedd Port Talbot	4.4	3.8	3.6	3.6	71%
Caerdydd	4.9	4.3	4.5	3.0	75%
Sir Benfro	3.4	3.2	3.8	2.7	87%
Blaenau Gwent	4.6	3.4	2.4	2.5	36%
Ynys Môn	3.7	1.7	2.2	2.3	52%
Sir Gaerfyrddin	3.0	3.4	3.5	2.1	60%
Abertawe	3.9	3.5	2.7	2.1	44%
Sir Fynwy	2.8	1.7	1.9	2.0	38%
Torfaen	2.5	2.2	1.9	2.0	91%
Cymru	3.7	3.1	2.8	2.0	56%
Caerffili	4.4	3.5	2.1	1.9	71%
Sir Ddinbych	4.1	2.1	3.1	1.9	46%
Powys	2.7	2.3	2.0	1.9	88%
Conwy	3.6	1.8	2.4	1.7	0%
Sir y Fflint	3.6	1.3	1.3	1.7	26%
Casnewydd	4.9	4.7	3.1	1.7	62%
Bro Morgannwg	3.8	2.8	1.7	1.6	48%
Pen-y-bont ar Ogwr	3.7	3.6	3.2	1.5	62%
Wrecsam	3.2	1.8	1.7	1.4	36%
Gwynedd	2.4	1.7	1.8	1.1	66%
Ceredigion	1.3	1.8	1.4	1.0	65%
Merthyr Tudful	1.9	2.6	1.6	1.0	72%
Rhondda Cynon Taf	4.1	3.9	3.7	1.0	23%

Ffynhonnell y data ynghylch pobl ifanc oedd yn NEET: <http://gov.wales/statistics-and-research/young-people-not-education-employment-training/?lang=en> darllenwyd 10/6/17.

7 ALLBYNNAU A CHANLYNIADAU

7.1 Diffiniadau

Yn eu Cynlluniau Gwaith, gofynnwyd i Awdurdodau Lleol nodi “Camau gweithredu, allbynnau, canlyniadau a cherrig milltir cynlluniedig.” Yna, fe wnaeth y Llythyrau Cynnig Grant gan Lywodraeth Cymru fynegi'r allbynnau a'r canlyniadau i'r Awdurdodau Lleol fel “Targedau”. Yn yr Adroddiadu Cynnydd Chwe Mis, fe wnaeth Llywodraeth Cymru restru'r targedau a gofyn am “fanylion unrhyw newidiadau i'r targedau gwreiddiol.” Yn y Gwerthusiad Blynyddol, tueddid i ddefnyddio'r Cynllun Gwaith fel templed, oedd yn caniatáu i Awdurdodau Lleol adrodd ynghylch pob prosiect unigol; hefyd, roedd adrannau yn y cefn yn gofyn “Nodwch pa ganlyniadau ac allbynnau sydd wedi'u cyflawni gan bobl ifanc o ganlyniad i'r cyllid grant hwn” a “Nodwch pa ganlyniadau ac allbynnau sydd wedi'u cyflawni gan weithwyr ieuenctid o ganlyniad i'r grant hwn.” Yn aml iawn, adroddwyd ynghylch pethau tebyg iawn yn adrannau gwahanol y Gwerthusiadau Blynyddol (neu cafwyd ymatebion “Fel yr uchod” neu gadawyd rhannau yn wag), sy'n awgrymu nad oedd y fformat hwn yn ddelfrydol. Dywedir rhagor ynghylch monitro a gwerthuso yn ddiweddarach.

Er y gofynnwyd i Awdurdodau Lleol ddarparu gwybodaeth ynghylch Canlyniadau ac Allbynnau yn eu Cynlluniau Gwaith, **ni wnaeth proses CGSGI gynnig diffiniadau o ystyr canlyniad neu allbwn.** Ni ddiffinnir y termau hyn ychwaith yn nogfen ymgynghori Llywodraeth Cymru, *Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol ar gyfer Gwaith Ieuenctid* (Mawrth 2016).

Felly, wrth ddiffinio canlyniadau ac allbynnau, fe wnaeth Awdurdodau Lleol ddefnyddio eu dealltwriaeth leol eu hunain o'r termau hyn. Weithiau, nodir y technegau a ddefnyddir (megis Atebolrwydd yn Seiliedig ar Ganlyniadau). Gan amlaf ni nodir hyn.

Wrth ddadansoddi effaith CGSGI, bu'n rhaid i'r adolygydd lunio diffiniadau ymarferol i gynorthwyo â hyn. Dyma'r diffiniadau hyn:

- **Mewnbynnau:** yr adnoddau a ddefnyddir i ddarparu gwasanaeth (staff, adnoddau).
- **Allbynnau:** faint wnaethom ni (pethau y gallwn ni eu cyfrif)?
- **Canlyniadau Prosiectau:** A lwyddom ni i wneud gwahaniaeth? A oes unrhyw un wedi elwa?
- **Canlyniadau Poblogaeth Gyfan (Effaith):** e.e. gostyngiad yn nifer y bobl ifanc sy'n NEET, llai o ymddygiad gwrthgymdeithasol, llai o gamddefnyddio sylweddau ac ati. Roedd canlyniadau poblogaeth gyfan yn absennol yn gyffredinol, ac eithrio yn nifer fechan ohonynt.

Ar sail yr wybodaeth a gynhwysir yn y Cynlluniau Gwaith a'r Gwerthusiadau Blynyddol, llwyddwyd i isrannu'r *data* ynghylch allbynnau a chanlyniadau fel a ganlyn:

Allbynnau	A1 Faint o bobl ifanc wnaethom ni ymgysylltu â hwy?	- #Cysylltiadau - Presenoldeb
	A2 Faint o bobl ifanc wnaethom ni weithio yn	- #PI y gweithiwyd â hwy - #PI o grwpiau penodol y gweithiwyd â hwy (#Perygl o ddod yn NEET, #NEET)

	uniongyrchol â hwy?	<ul style="list-style-type: none"> - #PI yn cyfranogi mewn gweithgareddau cyfranogi/gwirfoddoli - #PI yn cyfranogi mewn gweithdai ynghylch pynciau penodol - #PI yn cyfranogi mewn rhaglenni achrededig
	A3 Faint wnaethom ni gyflawni?	<ul style="list-style-type: none"> - #Rhaglenni - #Gweithgareddau - Sesiynau (e.e. #sesiynau mewn clybiau ieuenctid, #datgysylltiedig/allgymorth, #sesiynau galw heibio, #digwyddiadau profi/hyrwyddo, #digwyddiadau preswyl, #sesiynau yn y gwyliau, #oriau a ddarparwyd) - #gweithdai ynghylch pynciau penodol a ddarparwyd - Sesiynau hyfforddiant a ddarparwyd ar gyfer ymarferwyr
	A4 Cymwysterau Gwaith ieuenctid Proffesiynol a <i>gefnogwyd</i>	<ul style="list-style-type: none"> - Gweithiwr ieuenctid L4-L6 (lefel gradd) - Gweithiwr cymorth ieuenctid L2-L3
	A5 Cyfranogwyr hyfforddiant	- # ymarferwyr yn cyfranogi mewn hyfforddiant
	A6 Pa mor dda wnaethom ni gyflawni?	- Bodlonrwydd â'r ddarpariaeth
Canlyniadau	C1 Achrediadau	# Achrediadau
	C2 Cynnydd o ran Addysg Hyfforddiant a Chyflogaeth	<ul style="list-style-type: none"> - #Parhau i ymgysylltu ag Addysg Hyfforddiant a Chyflogaeth - #Symud ymlaen trwy'r Model Haenau - #Datblygu sgiliau sy'n ymwneud â chyflogadwyedd - #Gwell agwedd at Addysg Hyfforddiant a Chyflogaeth
	C3 Dangosyddion meddal cyffredinol	e.e. <ul style="list-style-type: none"> - Gwelliant a fynegwyd gan y bobl ifanc eu hunain o ran sgiliau/gwybodaeth - Gwelliant a fynegwyd gan y bobl ifanc eu hunain o ran hyder/hunan-barch
	C4 Cynnydd a adroddwyd gan ddefnyddio technegau penodol:	e.e. <ul style="list-style-type: none"> - Pellter a deithiwyd - Sêr Deilliannau - Atebolrwydd yn Seiliedig ar Ganlyniadau

Fe wnaeth y diffiniadau uchod ganiatáu i'r rhan fwyaf o'r eitemau data gael eu cynnwys o dan un o'r penawdau A (allbwn) neu C (canlyniad) yn y daenlen.

Roedd testun ansoddol yn y Gwerthusiadau Blyneddol yn ogystal â'r data ynghylch allbynnau a chanlyniadau, a oedd yn tueddu i ddisgrifio:

- **Datblygiadau seilwaith** e.e. datblygu rôl Gweithiwr Arweiniol, datblygu systemau gwybodaeth, datblygu cydweithio agosach.

- **Gwasanaethau a ddarparwyd a manylion beth wnaeth pobl ifanc ei brofi o ganlyniad i hynny** (disgrifiad ansoddol o allbynnau).
- **Astudiaethau achos yn dangos yr effaith ar bobl ifanc unigol** (disgrifiad ansoddol o ganlyniadau – llai cyffredin).

7.2 Anawsterau Methodolegol â'r Data

Ar ôl dosbarthu'r data, ystyriwyd defnyddioldeb y data. Ar draws y 22 Awdurdod Lleol, roedd **196 "prosiect"** (meysydd gweithgarwch yr oedd cyllideb benodol ar eu cyfer).

Roedd nifer o broblemau methodolegol cyffredin yn cyfyngu ar y defnydd o'r data i adolygu effaith CGSGI:

Yn aml iawn, **nid oedd gwaelodliniau na thargedau**. Roedd gan 13 o blith y 22 Awdurdod Lleol un neu ragor o brosiectau heb hynny. Er ei fod yn ddealladwy y gall pobl fod yn amharod i bennu targed ar gyfer prosiect newydd, arloesol, dylid ceisio gwneud hynny bob amser. Yna, gellir ailedrych ar y targed ac adrodd yn ei gyloch os yw'r ffigurau yn well neu'n waeth na'r disgwyl: gallai rhywbeth sy'n wahanol i dargedau gwreiddiol ddynodi llwyddiant, methiant neu wersi a ddysgwyd ac yr ymatebwyd iddynt. Heb y meincnod cychwynnol hwn, mae'n anos i'r darlennydd allanol ddeall yr effaith. Serch hynny, ac eithrio prosiectau oedd yn ymwneud â hyfforddiant, fe wnaeth bob prosiect namyn un adrodd am ffigur A1 (Faint o bobl ifanc wnaethom ni ymgysylltu â hwy?) neu A2 (Faint o bobl ifanc wnaethom ni weithio yn uniongyrchol â hwy?); ac fe wnaeth yr un na wnaeth hynny ddod i ben.

Yn achos 27 prosiect ar draws 14 Awdurdod Lleol, roedd **yr eitemau data yr adroddwyd yn eu cylch yn y Gwerthusiadau Blynyddol yn ymwneud â dangosyddion gwahanol i'r targedau** a bennwyd i'r prosiectau hynny.

Fe wnaeth llawer o brosiectau ddarparu **gormod o ddata, heb ddigon o gydgrynhoi**. Mae data ychwanegol yn dderbyniol, os gellir eu cysylltu â'r targedau gwreiddiol. Ond pan fo'r targed yn ymwneud â gweithio gyda 100 o bobl ifanc a'r adroddiad yn dweud fod 20 o bobl ifanc wedi gwneud hyn, 50 o bobl ifanc wedi gwneud rhywbeth arall, 60 o bobl ifanc wedi gwneud rhywbeth ychwanegol a 30 o bobl ifanc wedi gwneud rhywbeth arall ychwanegol – a yw hynny'n 160 o bobl ifanc (cyfanswm y cyfan); neu a yw'n 20 o bobl ifanc (yr un bobl ifanc yn ailadrodd eu cyfranogiad mewn nifer o'r elfennau sawl gwaith)? Gwelwyd yr anhawster hwn mewn 19 prosiect ar draws 9 Awdurdod Lleol.

Roedd adroddiadau **chwarterol yn hytrach na chyfansymiau blynyddol** ynghylch data yn llai cyffredin. Os adroddir am ddata ar draws pedwar chwarter, a yw hynny'n golygu y gellir adio'r pedwar chwarter ynghyd yn ddilys (gellir gwneud hynny yn aml iawn, er enghraifft, os bydd yn ymwneud â data A1 ynghylch Cysylltiadau), neu na ddylid gwneud hynny (e.e. yn Chwarter 1, 22 o bobl ifanc yn cyfranogi mewn sesiwn grŵp, Chwarter 2, 21 o bobl ifanc: efallai'n wir mai'r un bobl ifanc yw'r rhain). Er y gellid deall ar y cyfan sut i ddehongli hyn, byddai'n symlach pe bai adroddiadau blynyddol yn dangos data'r flwyddyn dan sylw.

Yn aml iawn, gwnaed **defnydd gwael o rifau a chanrannau**. Ni ddylid cyfeirio at ganrannau heb nifer cysylltiedig (mae cynnydd o 1 ar fan cychwyn o 1 yn 100% ac mae cynnydd o 1 ar fan cychwyn o 100 yn 1%). Digwyddodd hyn yn aml. Hefyd, mae modd tangyflawni ar ganran ond cyflawni yn gyffredinol:

e.e. targed i weithio gyda 100 o bobl ifanc ac 85% (n=85) yn symud ymlaen trwy'r model Haenau. Fe wnaeth y prosiect weithio gyda 300 o bobl ifanc, ac fe wnaeth

200 symud ymlaen trwy'r Model Haenau. Felly gwnaed mwy o lawer o gynnydd (200>85) ond mae hyn yn is fel canran (targed o 85/100 = 85%; canran gwirioneddol 200/300 = 67%). Felly mae'n bwysig cynnwys nifer os pennir targed fel canran.

Heb gynnwys unrhyw ddata meintiol. Roedd rhai prosiectau heb adrodd o gwbl ynghylch data, eraill ag ychydig iawn o ddata, neu wedi osgoi adrodd mewn cymhariaeth â'u mesurau diffiniedig.

Nid yw'r diffyg gwybodaeth gadarn yn y dogfennau monitro a gwerthuso **yn golygu nad yw Awdurdodau Lleol yn ei chasglu.** Mae'n golygu nad yw'r adroddiadau am y data hyn yn gyson i'w galluogi i gael eu defnyddio yn ystyrion ar y lefel genedlaethol, felly mae hyn yn broblem y gellir ei datrys.

Er bod yr Awdurdodau Lleol yn hoffi hyblygrwydd y trefniadau adrodd a'r ffaith nad ydynt yn gaeth, heb os, gellir gwella hyn yn y dyfodol, os bydd y Grant yn parhau, gan gadw cryn dipyn o hyblygrwydd.

7.3 Data

7.3.1 A Gyflawnwyd Targedau ynghylch Allbynnau a Chanlyniadau?

Cafodd anawsterau methodolegol tracio cyflawniad deilliannau ac allbynnau eu hadlewyrchu yn y cwestiwn sy'n holi a gafodd targedau deilliannau ac allbynnau eu cyflawni ai peidio.

O blith y 196 prosiect, fe wnaeth 37 ragori ar eu **targedau allbynnau**, fe wnaeth 13 eu cyflawni, yr oedd hyn yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn yn achos saith, roedd pedwar yn agos at gyflawni eu targedau, ac ni wnaeth pedwar arall gyflawni eu targedau. Yn achos prosiectau newydd 2016-17, roedd hi'n rhy gynnar llunio barn am hyn, oherwydd nid oedd Gwerthusiad Blynyddol 2016-17 wedi cael ei gwblhau ar y pryd. Felly o ran cynnydd mewn cymhariaeth â thargedau, nid oedd llawer iawn o dystiolaeth *feintiol*.

O blith yr un prosiectau, fe wnaeth 20 ragori ar eu **targedau allbynnau**, fe wnaeth 11 eu cyflawni, roedd gan saith ganlyniadau cymysg (cyflawni rhai ond nid eraill), ac roedd hyn yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn yn achos tri. Felly o ran cynnydd mewn cymhariaeth â thargedau, nid oedd llawer iawn o dystiolaeth *feintiol*.

Roedd diffyg data cadarn yn ei gwneud yn anos dangos tystiolaeth o gyflawni mewn cymhariaeth â thargedau. Nid yw hynny'n golygu fod diffyg effaith, mae'n golygu fod llawer mwy o ddibyniaeth ar y testun ansoddol mewn dogfennau a'r cyfweiliadau gyda'r PSI, ac roedd y testun yn y dogfennau atodol yn aml yn fwy o ddisgrifiad o sut cafodd prosiect ei gyflawni, nid ei effaith.

7.3.2 C1 Faint o bobl ifanc wnaethom ni ymgysylltu â hwy?

Defnyddiwyd y categori hwn os oedd y data yn dangos ffigurau cyffredinol ynghylch cysylltiadau neu bresenoldeb yn hytrach na gwaith gyda phobl ifanc unigol oedd wedi cofrestru.

Bydd rhy ychydig wedi'i ddweud am hyn oherwydd yr anawsterau methodolegol a ddisgrifiwyd yn adran flaenorol yr adroddiad hwn, ond dyma ffigurau cyffredinol GCSGI yn 2014-15 a 2015-16:

- Ymgysylltwyd yn gyffredinol â 31,495 o bobl ifanc (mae'n anodd nodi natur yr ymgysylltu);
- 27,421 o gysylltiadau (yn cynnwys mewn canolfannau galw heibio a gwaith datgysylltiedig/allgymorth);
- 6,177 yn cyfranogi mewn rhaglenni haf/gwyliau;

- 1,376 yr ystyrir eu bod mewn perygl o ddod yn NEET neu eisoes yn NEET (ble mae natur y gwaith gyda hwy yn awgrymu serch hynny fod hyn yn 'Gyswllt' yn hytrach na gwaith uniongyrchol, er na ellir bod yn sicr ynghylch hyn).

7.3.3 A2 Faint o bobl ifanc wnaethom ni weithio yn uniongyrchol â hwy?

Defnyddiwyd y categori hwn yn achos gwaith uniongyrchol (unigol neu mewn grwpiau) gydag unigolion cofrestredig. Mae'r ffigyrau hyn hefyd yn debygol o fod yn fwy cywir nag yn achos A1, ond mae'n debyg fod cryn dipyn o enghreifftiau o beidio dweud digon am hyn. Mae'r ffigyrau a welir isod hefyd yn dangos ffigyrau 2014-15 a 2015-16 wedi'u cydgrynhoi, felly efallai mai'r un bobl ifanc sydd dan sylw yn ystod y ddwy flwyddyn:

- Roedd 7,780 o'r bobl ifanc y gweithiwyd â hwy mewn perygl o ddod yn NEET / eisoes yn NEET;
- Roedd 510 o'r bobl ifanc yn anabl neu roedd ganddynt anghenion dysgu ychwanegol;
- Nid oedd 1,939 o'r bobl ifanc y gweithiwyd â hwy yn rhan o grŵp targed penodol;
- Roedd 268 yn Haen 1 neu Haen 2 model ymgysylltu pum haen Gyrfa Cymru.

O ran y sawl oedd mewn perygl o ddod yn NEET neu eisoes yn NEET:

- Ni ellid dweud yn gyson i ba un o'r ddau israniad hyn roedd y bobl ifanc yn perthyn;
- Ni ellid dweud yn gyson bob tro a oedd y bobl ifanc dan 16 mlwydd oed neu dros 16 (wedi Blwyddyn 11);
- Nid oedd model pum haen Gyrfa Cymru yn cael ei ffafrio gan lawer fel yr iaith i ddisgrifio'r bobl ifanc hyn. Diffinnir yr haenau o safbwynt ôl-16 Gyrfa Cymru, felly yn aml iawn, nid oedd y bobl ifanc wedi'u diffinio yn unol â'r haenau.

Pe bai'r gwahaniaethu hwn wedi bod yn eglur yn gyson yn y data, efallai byddai'r data wedi'u cydgrynhoi ar y lefel cenedlaethol wedi bod yn fwy defnyddiol.

Roedd y data hefyd yn adlewyrchu cyfranogiad pobl ifanc mewn cyfleoedd **cyfranogi a gwirfoddoli**, ac mae'n debyg fod y data hyn yn fwy cadarn:

- Cafodd 1,197 o wirfoddolwyr eu recriwtio trwy gyfrwng prosiectau GCSGI;
- Yn ôl pob tebyg, ar ben y ffigur hwnnw, roedd 47 o addysgwyr cyfoed, 87 o arweinyddion ifanc, 24 o arolygwyr ifanc, a 12 o Lysgenhadon Ifanc;
- Cynorthwywyd 205 o bobl ifanc i gyfranogi mewn fforymau ieuenctid;
- Roedd 355 o bobl ifanc wedi cyfranogi mewn prosesau ymgynghori;
- Roedd 26 o bobl ifanc wedi cyfrannu at wneud penderfyniadau ynghylch dyfarnu grantiau.

Os oedd cyfranogi yn rhan allweddol o brosiect, ar y cyfan, roedd cryn dipyn o destun yn y Gwerthusiadau Blynyddol yn disgrifio'r gweithgareddau y cyfranogodd y bobl ifanc ynddynt a'u heffaith.

Yn 2014-15 a 2015-16, cyfranogodd 11,283 o bobl ifanc mewn **gweithdai ar bynciau penodol**. Mae'n debyg y dywedwyd rhy ychydig am hyn. O blith y rhain, fe wnaeth 3,872 o bobl ifanc fynychu gweithdai yn ymwneud â ffyrdd iach o fyw, y pwnc mwyaf o bell ffordd.


7.3.4 A3 Faint Wnaethom Ni Gyflawni?

Mae natur ac amrywiaeth y data ynghylch “faint wnaethom ni gyflawni” (rhaglenni, sesiynau ac ati) yn ei gwneud hi'n anodd dadansoddi a chydgrynhoi'r data hyn mewn ffordd ystyrlon. Mae'n wybodaeth ddefnyddiol ynghylch prosiectau unigol, ond nid yw'n ddefnyddiol i adolygu effaith.

7.3.5 A4 Faint o Gymwysterau Gwaith Ieuentid Proffesiynol a Ariannwyd?

Mae Ffigur 9 yn dangos y nifer o bobl a *gefnogwyd* i ennill cymhwyster gwaith ieuentid proffesiynol yn 2014-15 a 2015-16 trwy gyfrwng GCSGI. Yn achos cymwysterau Gweithwyr Cymorth Ieuentid (L2-L3) a chymwysterau lefel Gradd (L4-L6), mae'r niferoedd yn gostwng o'r flwyddyn gyntaf i ail flwyddyn y grant, sef gostyngiad o 33% (2014-15 n=258; 2015-16 n=174). Fe wnaeth adran 4.3.3 yr adroddiad hwn awgrymu tynnu'r hyfforddiant proffesiynol o'r meini prawf hyfforddiant ar gyfer GCSGI.

Ffigur 9: Cymwysterau Gwaith Ieuentid Proffesiynol a Gefnogwyd



7.3.6 A5 Cyfranogwyr Hyfforddiant

Bwriad A5 oedd nodi nifer y cyfranogwyr ar gyrsiau hyfforddiant nad oeddent yn arwain at gymwysterau proffesiynol mewn gwaith ieuentid (h.y. roeddent yn canolbwyntio ar bynciau penodol). Cyfeiriodd nifer o'r cyfweleion at bwysigrwydd yr hyfforddiant hwn os oeddent yn ailffocysu eu gwasanaeth ac yn gwella sgiliau eu staff. Roedd rhai Gwerthusiadau Blynyddol yn nodi pa gyrsiau oedd yn cael eu rhedeg, ond nid y nifer o ymarferwyr a fynychodd bob tro. Adroddwyd am y nifer uchaf o gyfranogwyr ar gyfer y canlynol:

- “Hyfforddiant rhanbarthol”: 632 cyfranogwr;
- Datblygiad Proffesiynol Parhaus cyffredinol heb ei ddisgrifio'n benodol: 447 cyfranogwr;
- “Seminarau hyfforddiant” (amhenodol): 443 cyfranogwr;
- Camfanteisio ar blant a'u hamddiffyn ar-lein: 371 cyfranogwr;
- Cyfranogi: 333 cyfranogwr;
- Camddefnyddio sylweddau: 295 cyfranogwr;
- Iechyd meddwl: 184 cyfranogwr;
- Ymddygiad heriol: 175 cyfranogwr;
- Iechyd: 151 cyfranogwr;
- Pobl ifanc sy'n agored i niwed: 131 cyfranogwr;
- Cyfartaledd ac amrywiaeth: 130 cyfranogwr;
- Iechyd rhywiol: 128 cyfranogwr.

Mae'r ffigurau uchod yn ddiddorol ond byddai rhagor o fanylion wrth adrodd am y ffigurau wedi bod yn fwy defnyddiol.

Digwyddodd hyfforddiant rhanbarthol yn y De-ddwyrain a'r Gorllewin yn benodol (efallai yng Ngogledd Cymru hefyd, ond mae'n aneglur a wnaeth GCSGI gynorthwyo â hyn). Roedd manteision yr hyfforddiant rhanbarthol yn cynnwys arbedion maint o ran darparu hyfforddiant arbenigol a chyfleoedd i rwydweithio. Fodd bynnag, adroddwyd fod hyn yn anodd ei gyflawni ar brydiau, o gofio y gall blaenoriaethau Awdurdodau Lleol fod yn wahanol.

7.3.7 A6 Pa Mor Dda Wnaethom Ni Gyflawni?

Roedd rhywfaint o'r eitemau data a gasglwyd yn canolbwyntio ar fodlonrwydd pobl ifanc ag ansawdd darparu'r sesiwn (yn hytrach na'r effaith arnynt o ran sgiliau neu wybodaeth newydd). Mae'r data hyn yn ddefnyddiol i ystyried effeithiolrwydd sut cafodd gwasanaeth ei ddarparu, ond nid yw'n ddefnyddiol o ran gwerthuso effaith cyffredinol GCSGI, felly ni wnaed dadansoddiad o hyn.

7.3.8 C1 Achrediadau

Mae gan bob un namyn un o'r 22 Awdurdod Lleol brosiectau sy'n ymwneud â darparu canlyniadau achrededig ar gyfer pobl ifanc. Dros y dair blynedd, roedd prosiectau oedd yn cynnwys achredu yn cyfateb i **£4.756m (58%)** o gyfanswm y Grant.

Roedd gan saith Awdurdod Lleol (Ynys Môn, Blaenau Gwent, Caerffili, Conwy, Castell-nedd Port Talbot, Casnewydd, Abertawe a Thorfaen) brosiectau oedd â'r gair "achredu" yn eu teitl.

Yn 2015-16, nododd yr Archwiliad o Waith Ieuenctid fod 10,561 o bobl ifanc wedi ennill achrediad cenedlaethol a 12,158 wedi ennill achrediad lleol, cyfanswm o **22,719 achrediad** yn 2015-16. O'r data a adroddwyd yn ffurflenni'r Gwerthusiad Blynyddol, enillwyd cyfanswm o **12,106 achrediad** dros ddwy flynedd 2014-15 (6,829 yn 2014-15 a 5,277 yn 2015-16). Felly, **mae GCSGI wedi cyfrannu'n sylweddol at nifer yr achrediadau** (23%, n=5277/22719 yn 2015-16).

Mae gwahaniaethu bychan yn adroddiadau GCSGI ynghylch y **mathau o achrediadau** a ddyfarnwyd a pha un ai a oeddent yn rhai **cenedlaethol neu'n leol**. Yn ôl bob tebyg, mae systemau rheoli gwybodaeth yn cofnodi'n effeithiol faint o bobl ifanc sy'n ennill achrediadau er mwyn cwblhau adroddiad yr Archwiliad: efallai ei bod hi'n anodd nodi faint o'r rhain oedd yn rhan o brosiectau a ariannwyd gan GCSGI, ond pe bai'r data hynny ar gael, byddent yn ddefnyddiol i nodi effaith llawn y Grant. Mae'r daenlen a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru i gasglu data ynghylch GCSGI ar gyfer 2017-18 yn gofyn am fwy o fanylion am achredu nag yn y gorffennol.

7.3.9 C2 Cynnydd o ran Addysg Hyfforddiant a Chyflogaeth

Clustnodwyd **£4,611,649.92 (56%)** o gyllideb GCSGI i Faen Prawf A y FfYDI dros dair blynedd y Grant. Gellid disgwyl y byddai'r swm sylweddol hwn yn sicrhau canlyniadau arwyddocaol.

Heb os, mae lleihad yn nifer y bobl ifanc sy'n NEET, ym mhob Awdurdod Lleol (gweler ffigur 9 yn adran 6.2), yn awgrymu fod cyfuniad o adnoddau wedi effeithio ar gyfraddau'r bobl ifanc sy'n NEET. Y broblem yw'r ffaith fod hyn wedi'i adrodd yn wael yn erbyn GCSGI. Tueddir i adrodd ynghylch targedau a chanlyniadau fel canrannau (e.e. X% yn arddangos sgiliau cyflogadwyedd), ond nid oes niferoedd i ategu hyn. Heb y niferoedd, ni ellir cydgrynhoi'r ffigurau hyn ar lefel genedlaethol. Yn 2014-15, o blith 20 danghosiwyd cynnydd ynghylch Addysg, Hyfforddiant a Chyflogaeth a adroddwyd fel canran, dim ond pedwar oedd â niferoedd ategol; yn 2015-16, o blith y 37 a adroddwyd fel canran, dim ond dau oedd â niferoedd.

Serch hynny, roedd y data hyn ar gael:

- Fe wnaeth 835 o bobl ifanc symud ymlaen trwy'r Model Haenau yn 2014-15 a 2015-16;
- Cynorthwywyd 732 i gynnal eu hymgysylltiad ag Addysg, Hyfforddiant a Chyflogaeth, a chynorthwywyd 293 arall i barhau i ag Addysg, Hyfforddiant a Chyflogaeth ar ôl iddynt droi'n 16 mlwydd oed;
- Cynorthwywyd 317 i gael Addysg, Hyfforddiant neu Gyflogaeth;
- Cynorthwywyd 147 i ddatblygu sgiliau yn gysylltiedig â chyflogadwyedd;
- Roedd 144 wedi gwella eu hagwedd at ddysgu, hyfforddiant a chyflogaeth.

Yn ôl y data ynghylch pobl ifanc sy'n NEET ar ddiwedd Rhagfyr 2016, roedd 13,300 o bobl ifanc 16-18 mlwydd oed yng Nghymru oedd yn NEET a 51,000 oedd yn 19-24 mlwydd oed; ar ddiwedd 2016, roedd 9,100 o bobl ifanc 16-18 oed a 42,000 o bobl ifanc 19-24 mlwydd oed yn NEET. Mae hyn yn golygu, yn ystod y cyfnod hwnnw, fod lleihad o 13,200 yn nifer y bobl ifanc 16-24 mlwydd oedd yn NEET yng Nghymru, yn unol ag un o'r effeithiau a ddymunir yn *Strategaeth Gwaith Ieuenctid 2014-18*.

Mae'n amlwg o'r adborth gan y PSI eu bod yn credu fod GCSGI wedi effeithio'n sylweddol ar agenda GCSGI. Mae'n debyg o fod yn anodd ymgysylltu â phobl ifanc sydd mewn perygl o fod yn NEET neu sydd yn NEET trwy leoliadau ysgolion ffurfiol, ac mae'n debygol fod defnyddio dulliau gwaith ieuenctid wedi cyfrannu at leihad cenedlaethol cyson yn nifer y bobl ifanc sy'n NEET. Yn ychwanegol, mae GCSGI wedi cynorthwyo i ddatblygu partneriaethau a llwybrau ar y cyd ag ysgolion yn benodol, a chredai PSI fod hyn wedi helpu i leihau'r ganran o bobl ifanc sy'n NEET. Ni ategir hyn yn gryf yn y data oherwydd diffygion yn y data.

7.3.10 C3 Dangosyddion Meddal Cyffredinol

Ychydig iawn o 'ddangosyddion meddal' a nodwyd yn y Cynlluniau Gwaith. Roedd Llywodraeth Cymru wedi datgan fod ganddynt lai o ddi-ddordeb mewn data ynghylch y meysydd hyn. Roedd llawer o'r dangosyddion meddal a adroddwyd yn ymwneud â gwelliannau mewn hyder neu mewn sgiliau/gwybodaeth. Roedd rhai yn ymwneud â phobl ifanc, ac eraill yn ymwneud ag effaith hyfforddiant ar weithwyr proffesiynol. Fel yn achos C2 ynghylch cynnydd ag Addysg, Hyfforddiant a Chyflogaeth, tueddwyd i adrodd am hyn fel canran yn unig. Er rhaid canmol ymdrechion i gynnwys dangosyddion meddal wrth adrodd, mae hyn yn golygu na ellir cydgrynhoi'r ychydig ddata oedd ar gael.

7.3.11 Crynodeb o'r Data

Ar y cyfan, nid oes amheuaeth fod y Grant wedi effeithio'n fwy sylweddol na mae'r data'n awgrymu. Mae diffygion yn y data wedi'i gwneud hi'n anodd adolygu effaith y Grant mor effeithiol ag y byddid wedi'i ddymuno gan ddefnyddio data, ond mae'r adborth gan y PSI yn awgrymu'n gryf fod yn Grant wedi bod yn gadarnhaol. Mae'n debyg fod Awdurdodau Lleol yn casglu llawer iawn mwy o ddata na'r hyn a adroddwyd yn eu cylch yn y Gwerthusiadau Blynyddol, felly mae'r problemau â'r data yn hawdd eu datrys, mae'n debyg. Mae rhywfaint o gynnwys ansoddol Gwerthusiadau Blynyddol GCSGI, yn cynnwys astudiaethau achos, hefyd yn cynorthwyo i amlygu effaith mwy lleol ei natur, ond nid yw'n hawdd eu cydgrynhoi yn ddefnyddiol mewn adroddiad o'r math hwn.

8 MONITRO A GWERTHUSO'R GRANT

8.1 Safbwyntiau'r PSI ynghylch Gofynion Monitro

Mae dau fecanwaith ar gyfer monitro a gwerthuso presennol y Grant gan Lywodraeth Cymru: yr Adroddiadau Monitro Chwe Mis a'r Adroddiadau Gwerthuso Blynyddol.

Ar y cyfan, roedd y PSI yn credu fod y rhain yn hawdd eu llenwi ac yn debyg i'r hyn byddai rhywun yn ei ddisgwyl yn achos grant o'r maint hwn. Fodd bynnag, dywedodd chwech eu bod yn credu nad oeddent yn darparu digon o atebolrwydd ar gyfer Llywodraeth Cymru:

- credai dau y byddai adroddiadau chwarterol yn fwy priodol (ac yn cyd-fynd â gofynion Grantiau eraill);
- credai un y dylai'r Gangen Gwaith leuenctid ymweld yn achlysurol â safleoedd ym mhob Awdurdod Lleol fel rhan o broses monitro reolaidd;
- credai dau y dylid craffu rhagor ar sut caiff yr arian ei wario;
- dywedodd un "Wn i ddim faint o werth gall Llywodraeth Cymru ei brofi" o'r ffurflenni monitro.

Yn wreiddiol, roedd yr adolygydd yn dymuno cymharu cyllidebau a gwariant fel rhan o'r adolygiad, ond gallai edrych ar gyllidebau yn unig oherwydd nid oedd adroddiadau digonol am wariant yn cael eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru.

8.2 Adroddiad Cynnydd Chwe Mis

Mae dwy golofn yn yr Adroddiad Cynnydd Chwe Mis. Mae un yn rhestru holl dargedau prosiect. Pennawd y llall yw "Disgrifiwch unrhyw newidiadau i dargedau gwreiddiol."

Yn ystod tair blynedd y Grant, roedd cwblhau'r Adroddiad Cynnydd Chwe Mis yn dilyn patrwm cyson:

- Fe wnaeth deuddeg Awdurdod Lleol adrodd am gynnydd mewn cymhariaeth â phob un o'u targedau bob tro;
- Darparodd dau Awdurdod Lleol ddisgrifiadau ansoddol o'u gwaith;
- Fe wnaeth y gweddill nodi nad oedd unrhyw newid, amlygu meysydd ble cafwyd newidiadau yn unig, neu adael y ffurflen yn wag.

Yn achlysurol, cyfeiriwyd at newidiadau yn y dull o wario'r arian (yn aml iawn, os oedd rhywun yn absennol oherwydd salwch tymor hir), gan ddatgan fod hyn wedi'i gytuno â Changen Gwaith leuenctid Llywodraeth Cymru. Ystyrid fod y Gangen Gwaith leuenctid yn gefnogol iawn dan yr amgylchiadau hyn. Er mae'n briodol fod hyn wedi'i danategu gan gyfathrebu llafar uniongyrchol rhwng Awdurdodau Lleol a'r Gangen Gwaith leuenctid, dylid cynnwys dogfen un dudalen syml i gadarnhau a chofnodi'r cytundeb hwn (disgrifiad o'r newid; rheswm dros y newid; cyfanswm y gwariant sy'n cael ei newid; a dylai'r ddau gorff lofnodi a dyddio'r ddogfen).

O safbwynt yr adolygydd, mae'r data yn llawer mwy defnyddiol ar ddiwedd y flwyddyn, ac roedd lefel y manylion yn yr Adroddiadau Cynnydd Chwe Mis yn llai defnyddiol. Mae pennawd yr ail golofn, "Disgrifiwch unrhyw newidiadau i dargedau gwreiddiol", yn awgrymu fod ymateb cryno yn dderbyniol; ond mae rhestru'r holl dargedau yn annog Awdurdodau Lleol i feddwl fod angen iddynt ysgrifennu rhywbeth am bob un. Os bydd angen y manylder hwnnw ar Lywodraeth Cymru a bydd yn ei

ddefnyddio, dylai pob Awdurdod Lleol ei lenwi. Os, i'r gwrthwyneb, bydd ar Lywodraeth Cymru angen gwybod a yw prosiectau yn mynd rhagddynt yn ddiraffferth a/neu pa anawsterau a brofir a/neu faint o'r arian sydd wedi'i wario hyd yn hyn, bydd angen i fformat yr Adroddiad Monitro Cynnydd Chwe Mis newid.

8.3 Adroddiadau Gwerthuso Blynyddol

Roedd y rhan fwyaf o'r Gwerthusiadau Blynyddol ar ffurf diweddariad o'r Cynllun Gwaith am y flwyddyn honno. Mewn sawl un, ceir sylwadau ynghylch cyflawni'r targedau, sut mae'r prosiect wedi cael ei gyflawni, datblygu gwaith partneriaeth a datblygiadau seilwaith. Ceir enghreifftiau o astudiaethau achos mewn rhai. Mae'r fformat wedi newid ychydig yn ystod cyfnod y Grant.

Yn 2016-17, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu taenlen sy'n gofyn, yn achos bob targed, am y manylion canlynol:

- Nifer y bobl ifanc yr ymgysylltwyd â hwy o ganlyniad i'r Grant;
- Y nifer a'r mathau o achrediadau a gyflawnwyd gan bobl ifanc o ganlyniad i'r Grant;
- Y sefydliadau/partneriaid y cydweithwyd â hwy yn sgil y Grant;
- Canlyniadau eraill a sicrhawyd o ganlyniad i'r Grant.

Mae hefyd yn gofyn am wersi a ddysgwyd ac enghreifftiau o arferion da.

8.4 Anawsterau a Gwelliannau Posibl

Roedd cydnabyddiaeth gyffredinol i bwysigrwydd bod yn atebol mewn modd tryloyw am arian cyhoeddus. Mae'r adolygydd wedi datgelu sawl anhawster â'r trefniadau monitro presennol sydd wedi llesteirio effeithiolrwydd yr adolygiad:

- **Diffyg cyd-destun strategol.** Pan eglurai Awdurdodau Lleol pam oeddent wedi dewis eu prosiectau, sut oeddent yn cyd-fynd â phrosesau moderneiddio/rheoli newid, pa mor arloesol/creadigol oeddent, sut maent wedi cysoni nifer o ffrydiau cyllido a sicrhau arian ganddynt a pha effaith strategol oedd yn deillio ohonynt, roedd hyn yn rymus. Cafwyd mwy o hynny o'r cyfweiliadau na'r ddogfennaeth. Byddai monitro effaith y Grant yn rheolaidd wedi bod yn effeithiol pe bai rhagor o ddadansoddi anghenion a chyd-destun strategol yn y ddogfennaeth. Nid oes rhaid i hyn fod yn hir a biwrocraataidd, ond byddai'n werth ei gynnwys pe bai GCSGI yn parhau wedi 2017-18.
- **Anawsterau methodolegol â'r data** Ni wnaiff fformat 2017-18 ddatrys yr anawsterau oedd eisoes yn bodoli. Yr unig ffordd o ddatrys hyn fydd pennu disgwyladau cliriach gan y fformat o ran unrhyw dargedau a data a ddarperir, a chydweithio ag Awdurdodau Lleol i sicrhau fod unrhyw ddiffygion sy'n bodoli yn cael eu datrys. Heb os, mae gan Awdurdodau Lleol lawer iawn mwy o ddata y gellid eu defnyddio i fonitro a gwerthuso na'r hyn sy'n cael ei gofnodi ar hyn o bryd; byddai angen i rywun yn y Gangen Gwaith leuenctid fynd ati i sicrhau fod yr wybodaeth wedi'i dychwelyd a chysylltu ag Awdurdodau Lleol ble ceir diffygion i wella'r wybodaeth honno. Mae adnoddau mae'r adolygydd wedi'u datblygu i wneud yr adolygiad hwn sy'n cynnig fformat a allai gynorthwyo i wneud hynny. Hynny yw, mae angen **monitro'r data yn fwy gweithredol i sicrhau eu bod yn fwy cadarn.**

- **Monitro Gwariant.** Ar ddiwedd y flwyddyn, dylai bob Awdurdod Lleol lunio datganiad yn egluro sut cafodd yr arian ei wario. Yn ystod y flwyddyn, pan fydd gwariant yn newid (trwy gytundeb â Llywodraeth Cymru), dylai'r newid hwnnw a'r rheswm drosto gael eu cofnodi'n ffurfiol.
- O ran yr **Adroddiad Cynnydd Chwe Mis**, mae angen i Lywodraeth Cymru fod yn fwy eglur ynghylch y diben hwn a sicrhau y caiff ei lenwi mewn modd cyson. Byddai'r adolygydd hwn o blaid rhestru'r prosiectau yn unig, heb eu targedau, ynghyd â ffocws ar ddisgrifiad ansoddol sy'n nodi a yw'r prosiectau hynny yn mynd rhagddynt yn iawn neu beidio.

9 DYFODOL Y GRANT

"Gobeithio y gwnaiff Llywodraeth Cymru sylweddoli faint yw gwerth y Grant. Mae'n wirioneddol ddefnyddiol i ni."

"Gwych. Mae wedi sicrhau effaith go iawn."

"Gadewch y Grant fel y mae. Peidiwch â'i newid. Mae'n gweithio."

"Peidiwch â gwneud unrhyw newidiadau."

"Os yw Llywodraeth Cymru yn dymuno cael gweithlu gwaith ieuenctid sy'n broffesiynol a chofrestredig, mae'n allweddol."

"Hebdo, ni ellid cynnal hyfforddiant."

Roedd y PSI a gyfwelwyd yn unfrydol yn eu dymuniad i **GCSGI barhau fel y mae, â'r un lefel o gyllid neu ragor**. Credid fod y tair maen prawf yn ddefnyddiol. Byddai angen ei gysoni ag unrhyw Strategaeth Gwaith Ieuenctid newydd a'r adolygiad o Ymestyn Hawliau, ond ar y cyfan, nid oeddent yn chwennych llawer o newid.

Dyweddodd un cyfwelai ei fod yn deall y gallai hyblygrwydd y Grant arwain at amheon ynghylch ei werth, ond ystyrid hyn yn gryfder gan y mwyafrif o gyfweleion.

"Mae'n rhaid iddo fod yn ymatebol i wahanol fodolau a ffurfiau o waith ieuenctid."

"Mae pob Cyngor yn wahanol. Rwy'n croesawu hynny [yr hyblygrwydd]."

Roeddent yn credu ei fod yn ychwanegu gwerth, ac yn caniatáu i ddulliau newydd ac arloesol gael eu datblygu a'u profi, yn aml i ategu newid strategol:

"Mae wedi ychwanegu gwerth i'n gwasanaethau presennol."

"Mae angen iddo ganolbwyntio ar arloesedd yn y dyfodol."

"Mae'n rhan allweddol o ailfodelu."

"Mae'n caniatáu i ni gysoni cyllid â grantiau a ffrydiau cyllido eraill."

Credai sawl un y byddai sicrwydd o gyllid dros dair neu bedair blynedd yn creu'r sefydlogrwydd sy'n ofynnol i'w cynorthwyo i fod hyd yn oed yn fwy effeithiol o ran eu defnydd o'r Grant.

10 CANFYDDIADAU AC ARGYMHELLION

Cwestiwn allweddol yr adolygiad hwn yw **pa un ai a yw Grant Cymorth y Strategaeth Gwaith Ieuenctid yn cynnig gwerth ac a yw wedi effeithio ar ddarpariaeth gwaith ieuenctid ledled Cymru.**

10.1 Effaith

Ym marn **CLILC**, er byddai perygl o ragor o grebachu mewn darpariaeth Gwasanaethau Ieuenctid pe cai GCSGI ei dynnu'n ôl neu ei gyfuno â'r GCR, dylai pob grant gael eu cyfuno â'r GCR i'w pennu yn lleol, ar sail anghenion lleol.

Dadleuodd PSI yn gryf fod GCSGI wedi sicrhau effaith cadarnhaol, ei fod yn **hanfodol i'w gadw fel Grant** yn hytrach na'i gyfuno â GCR, a bod y tair maen prawf sydd ganddo yn briodol ac yn ddefnyddiol:

- Mae wedi **cynorthwyo i gyflwyno'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid**, a defnyddiwyd cyfran fwy o'r Grant tuag at y maen prawf hon yn y drydedd flwyddyn na'r gyntaf. Mae agenda'r FfyDI hefyd yn nodwedd gref o'r adborth gan y PSI ynghylch y meysydd ble mae'r Grant wedi sicrhau'r effaith fwyaf.
- Mae wedi **cynorthwyo â darpariaeth Mynediad Agored, ond yn aml trwy gyfrwng model sy'n wahanol i'r gorffennol** (mwy o waith allgymorth na darpariaeth mewn adeiladau, mwy o waith ar contract allanol i'r sector gwirfoddol, neu brosiectau arloesol sy'n ymateb i anghenion sy'n dod i'r amlwg).
- **Mae hyfforddiant wedi gostwng** yn ystod pob un o flynyddoedd y Grant a bellach, mae'n denu cryn dipyn yn llai o gyllid na'r hyn a ddarparwyd yn flaenorol gan Lywodraeth Cymru trwy'r Grant Hyfforddiant a Datblygu Gwaith Ieuenctid (ond pe bai'r uchafswm o 25% a ganiateir o dan y Grant yn cael ei wario ar hyfforddiant, byddai gryn dipyn yn uwch).

Nid yw'r ddogfennaeth i fonitro a gwerthuso GCSGI y mae'n ofynnol i awdurdodau lleol eu llenwi yn gofyn i Awdurdodau Lleol ddangos y **dadansoddiad o anghenion sy'n sail i'w dewis** o brosiectau nac **effaith strategol y Grant**. Cafwyd gwell cipolwg yn sgil y cyfweiliadau â'r PSI na dogfennaeth GCSGI wrth geisio canfod negeseuon ynghylch effaith y Grant o ran cefnogi newid/moderneiddio, ailffocysu, ymateb i anghenion sy'n dod i'r amlwg, arloesedd/creadigrwydd, gwella cydweithio, a chysoni ffrydiau cyllido niferus. Ystyrir fod **hyblygrwydd** y Grant yn hanfodol o ran darparu'r gallu i addasu i amgylchiadau lleol, pwysau ar gyllidebau a blaenoriaethau lleol.

Ar y cyfan, mae PSI yn credu fod y Grant yn **hynod o werthfawr o ran eu gallu i ddarparu gwasanaethau ieuenctid effeithiol** yn unol â'r Strategaeth Gwaith Ieuenctid a thu hwnt i hynny.

Cafodd y **sector ieuenctid gwirfoddol** oddeutu **£1.422m** o'r cyllid dros dair blynedd, neu oddeutu **17% o'r Grant** (o'i gymharu, fe wnaeth Cynllun Grantiau Cyrff Ieuenctid Gwirfoddol Cenedlaethol [CIGC] ddsbarthu cyllid gwerth oddeutu £655 mil y flwyddyn o 2015 ymlaen). Fodd bynnag, mae hyn yn amrywio'n sylweddol ar draws gwahanol Awdurdodau Lleol, ac mae'n ymddangos fod gan rai o'r

Awdurdodau Lleol a wariodd lai o'u GCSGI ar y sector gwirfoddol berthnasoedd cryf â sefydliadau gwirfoddol lleol, a/neu fe wnaethant ddweud eu bod yn darparu cyllid i'r sector gwirfoddol o'u cyllidebau craidd yn lle hynny. Felly mae GCSGI wedi effeithio ar y sector gwirfoddol, ond mae'n anodd deall hyn yn iawn heb ddeall y darlun llawn ynghylch faint o'r arian hwn sy'n cael ei roi i'r sector gwirfoddol gan Awdurdodau Lleol ac o ba ffynonellau ariannol y daw hwn (GCSGI, cyllid craidd, cronfeydd eraill).

10.2 Monitro a Gwerthuso

Mae adrodd rheolaidd ynghylch GCSGI trwy gyfrwng yr Adroddiadau Cynnydd Chwe Mis a'r Gwerthusiadau Blynnyddol yn canolbwyntio'n bennaf ar **adroddiadau ansoddol ynghylch targedau a disgrifiadau ansoddol o'r gwasanaethau a ddarperir**, a cheir rhywfaint o destun hefyd ynghylch astudiaethau achos a/neu effaith y gwasanaethau ar bobl ifanc.

Mae **diffygion yn y data** o ran allbynnau a chanlyniadau, sy'n golygu fod yr effaith feintiol yn anos i'w asesu nag y dylai fod. Fodd bynnag, nid yw diffyg tystiolaeth dda yn gyfystyr â diffyg effaith.

Pe bai GCSGI yn parhau, byddai angen **addasu'r trefniadau monitro a gwerthuso** (gweler adran 8.4) er mwy ceisio gwella craffu, atebolrwydd a dealltwriaeth o effaith y Grant (datrys diffygion y data gwella monitro; ymgorffori rhagor o gyd-destun strategol; rhagor o adroddiadau ynghylch gwariant lleol; symleiddio'r Adroddiad Cynnydd Chwe Mis).

10.3 Argymhellion

Ar waethaf rhywfaint o ddiffygion yn y data, gellir dweud pe bai'r Grant yn dod i ben, a hyd yn oed pe cai ei gyfuno â GCR, byddai'n effeithio'n sylweddol ar gyfanswm ac amrywiaeth darpariaeth gwaith ieuencid; ar allu gwasanaethau ieuencid awdurdodau lleol i addasu, newid a moderneiddio; ac ar y gwaith o symud ymlaen ag agenda'r FfyDI.

Dyma fy argymhellion:

ARG1:	Pe bai GCSGI yn parhau, byddai angen ei addasu i gyd-fynd â blaenoriaethau strategol sy'n deillio o Strategaeth Gwaith Ieuencid ddiwygiedig a/neu adolygiad o Ymestyn Hawliau.
ARG2:	Mae angen i gynlluniau gwaith ar gyfer GCSGI gynnwys sylwebaeth ynghylch dadansoddi anghenion a phwy wnaeth gyfrannu at hynny (e.e. pobl ifanc, staff, asiantaethau sy'n bartneriaid) a'r rhesymau dros wneud penderfyniadau strategol ynghylch sut i wario'r Grant.
ARG3:	Gallai adolygu'r meini prawf neu'r dull o lunio adroddiadau fod yn ddefnyddiol er mwyn gwella atebolrwydd ond cynnal hyblygrwydd trwy adlewyrchu: <ul style="list-style-type: none"> I ba raddau mae'r Grant wedi arwain at effaith strategol yn lleol (rheoli newid/moderneiddio/ailffocysu; ymateb i anghenion lleol newydd sy'n dod i'r amlwg; gwella cydweithio; cysoni ffrydiau cyllido niferus); ac eglurhad o'r ffactorau sy'n sbarduno'r newidiadau hyn. Datblygu prosiectau sy'n arloesol/creadigol;

	<ul style="list-style-type: none"> • Gwella'r cysylltiad â Dangosyddion Cenedlaethol ar gyfer Llesiant; • Gwahanu hyfforddiant gwaith ieuencid proffesiynol ac elfen hyfforddiant mwy cyffredinol y grant.
ARG4:	Mae angen gosod GCSGI mewn cyd-destun strategol ehangach oherwydd mae'n dangos rhan o'r darlun o ddarpariaeth leol yn unig. Dylid sicrhau adolygiad llawnach o bob gwasanaeth lleol, yn cynnwys rôl GCSGI, trwy gyfrwng yr Aseidiadau o Ddigonolrwydd sydd wedi'u hargymell mewn adroddiadau ac adolygiadau eraill.

ATODIAD 1: RHESTR O GYFWELEION

Cyfweleion o Awdurdodau Lleol

Ynys Môn	Enid Williams	Prif Swyddog Ieuenctid
Blaenau Gwent	Joanne Sims	Rheolwr y Gwasanaeth Ieuenctid; Cadeirydd Grŵp y Prif Swyddogion Ieuenctid (GPSI).
Caerffili	Paul O'Neill	Uwch Reolwr Ieuenctid
Caerdydd	Simon Morris	Arweinydd Cyflawni, Ymgysylltu a Datblygu.
Sir Gaerfyrddin	Gill Adams	Prif Reolwr, Gwasanaeth Cymorth Ieuenctid.
Ceredigion	Elen James Lowri Evans	Pennaeth Ymgysylltu Ieuenctid ac Addysg Barhaus Prif Swyddog Ieuenctid Dros Dro
Conwy	Jane Williams	Pennaeth yr Is-adran, Gwasanaeth Ieuenctid Conwy
Sir Ddinbych	Roger Ellerton	Swyddog Arweiniol, Lles y Gymuned
Sir y Fflint	Ann Roberts	Rheolwr y Ddarpariaeth Ieuenctid Integredig
Gwynedd	Nia Morris	Prif Swyddog Ieuenctid
Merthyr Tudful	Samantha Morgan	Rheolwr y Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid
Sir Fynwy	Josh Klein	Rheolwr Gwaith Ieuenctid.
Castell-nedd Port Talbot	Jason Haeney	Prif Swyddog Ieuenctid a Chymuned, Gwasanaeth Ieuenctid Castell-nedd Port Talbot.
Casnewydd	Susan Calnon	Rheolwr y Gwasanaeth Ieuenctid.
Sir Benfro	Steve Davis	Rheolwr y Gwasanaeth, Ieuenctid Sir Benfro; Is-gadeirydd GPSI.
Rhondda Cynon Taf	Geraint Evans	Rheolwr y Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid.
Abertawe	Gavin Evans	Rheolwr Gwasanaethau Pobl Ifanc.
Torfaen	David Williams	Rheolwr y Gwasanaeth, Gwasanaeth Ieuenctid Torfaen.
Bro Morgannwg	Andy Borsden	Swyddog Arweiniol, Cynhwysiant Cymdeithasol a Llesiant.
Wrecsam	Donna Dickenson	Rheolwr y Gwasanaeth, Atal a Chymorth.

Cyfweleion Eraill

Dai Bryer	Urdd Gobaith Cymru	Cyfarwyddwr Adran y Gymuned – De Cymru.
Catherine Carr	Barnardos Cymru	Rheolwr Gwasanaethau Plant, Gwasanaethau Sir y Fflint.
Paul Glaze	CWVYS	Prif Weithredwr.
Gayle Harris	Dr Mz, Caerfyrddin	Rheolwr y Ganolfan.
Beth Cameron-Lyle	Y Seibiant, Sir y Fflint	
Tim Opie	CLILC	Swyddog Polisi Dysgu Gydol Oes (Ieuenctid)
Stephanie Price	Gwobr Dug Caeredin	Cyfarwyddwr – Cymru.

s